~ www.ecorwyddfa.co.uk ~

# ECO'r Wyddfa

Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 476 Mai 2019 Pris:£1



## O'r diwedd...

*"Diolch am a gawd er na chawd ond ychydig:*
*Mae'n dda'i gael o'n ddiawchedig."*

**Dyna ddywed yr hen rigwm, ac ydi, mae'n bosib reidio beic (heb fod yn feic mynydd) ar hyd Lôn Las Peris erbyn hyn, a hynny wedi i Gyngor Gwynedd roi wyneb o gôl-tar arno am y tro cyntaf erioed.**

Rhaid cofio mai'r hen Gyngor Bwrdeisdref Arfon (CBA) a fu'n gyfrifol am sefydlu'r llwybr sy'n cael ei alw yn Lôn Las Peris. Fe'i gwnaethpwyd o fewn 22 mlynedd o fodolaeth CBA, cyn i'r Cyngor hwnnw gael ei ddirwyn i ben ddiwedd Mawrth 1996 a throsglwyddo cyfrifoldeb y llwybr beicio i Gyngor Gwynedd. Roedd CBA wedi tynnu allan gynlluniau i ymestyn y llwybr beicio yr holl ffordd i Gaernarfon gan ddefnyddio gwelyau y ddwy hen reilffordd.

Yn 1997 cafwyd datganiad gan Gyngor Gwynedd yn dweud "Mae'r cynllun i greu cyswllt rhwng Caernarfon a Llanberis yn dal yn un y mae'r cyngor yn awyddus i'w weld yn cael ei weithredu." O 1998 bu cynghorau cymuned y fro a grŵp 'Rhwydwaith Beicio Peris' yn ymgyrchu i ymestyn y llwybr ac i wella safon Lôn Las Peris.

Yn 2002 cafwyd addewid gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i osod stribed metr o led o gôl-tar ar Lôn Las Peris. Roedd cais wedi ei wneud hefyd i gael golau yn y twnnel. Felly, 17 mlynedd yn ddiweddarach mae'r addewid hwnnw wedi ei wireddu!

Yn 2006 adroddwyd fod y llwybr o geg y twnnel heibio i Graig yr Undeb i'w uwchraddio. Cwblhawyd y gwaith o fewn dwy flynedd, ond doedd dim hawl gyfreithiol i feicio arno am fod iddo statws llwybr cyhoeddus. Bu'n rhaid disgwyl hyd 2012 cyn i'r statws gael ei newid.

Yn 2008 hefyd roedd yn fwriad defnyddio arian 'Prosiect Llwybrau Diogel i Gymunedau' i adeiladu pont o'r Fricsan dros y briffordd i Gwm y Glo, a defnyddio'r hen ffordd fel llwybr beicio. Mae'r hen ffordd yn dal gyda statws llwybr cyhoeddus, a does dim son am bont ddiogel.

Ers talwm roedd cystadleuaeth boblogaidd mewn carnifalau led-led y fro – y 'Slow Bicycle Race'. Byddai'n anodd iawn curo Cyngor Gwynedd mewn cystadleuaeth o'r fath.

ISSN 2516-7235
9 772516 723001

ECO'r Wyddfa

CYMRAEG

RHIF 476
Mai 2019
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU 07798552238
tonyelliott17@yahoo.com

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**GOLYGYDD YR IFANC**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Hafan, Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Rhian Elin George, Swn yr Engan, Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**TREFNYDD DOSBARTHU**
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen. lowriceiriog@hotmail.co.uk
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:**
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)
**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com
**PENISARWAUN:** Katie Williams, Ty'n Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Mehefin | Sul 26 Mai | Gwener 7 Mehefin | Llanrug |
| Gorffennaf/Awst | Sul 16 Mehefin | Gwener 28 Mehefin | Llanrug |

## LLYTHYRAU

Annwyl ddarllenwyr
Ydych chi yn ffrind i Fudiad Ffermwyr Ifanc Eryri. Nac ydych wel, pam ddim?
Rwyf yn ysgrifennu atoch yn sgil yr anrhydedd o gael bod yn Llywydd Sir ar y mudiad eleni.
Fel mae rhai ohonoch yn gwybod maent wedi colli eu cefnogaeth ariannol oddi wrth Gynghorau Gwynedd a Chonwy, ac i drio llenwi'r diffyg ariannol mae'r mudiad wedi dod fyny hefo "Cynllun Ffrindia" Y Ffermwyr Ifanc, wrth ofyn am £100 y flwyddyn neu £8.50 y mis. I gydnabod eich cefnogaeth byddant yn rhoi mynediad am ddim i chi i'r Eisteddfod a'r Rali Flynyddol.
Os ydych yn meddwl "dwi'n byw mewn pentref neu dre a tydi'r Mudiad ddim yn berthnasol i mi". Wel, erbyn heddiw mae llawer iawn o'r aelodau a dim i'w wneud hefo'r byd amaeth, ac yn dod o'r pentrefi a threfi cyfagos. Yn fy nghyn glwb, sef Dyffryn Madog, roedd ganddom aelodau o Feddgelert, Penrhyndeudraeth, Morfa Bychan, Cricieth, Llanystumdwy, Bryncir a Garndolbenmaen. a mae llawer i glwb arall yr un fath.
Felly gofynnaf yn garedig i chi ystyried cefnogi'r Cynllun yma. Mae'r mudiad yn rhoi cyfleoedd di-ri i'w haelodau, a hefyd yn meithrin sgiliau fel cadeiryddio pwyllgorau, ysgrifenyddion rhaglen a thrysoryddion y clybiau. Cyfle i ddysgu rhai o sgiliau mwyaf defnyddiol bywyd.
Mi orffennai drwy eich herio- os ydych angen mwy o berswâd, dewch i weld y Ffermwyr Ifanc ar eu cystadleuol orau yn ein Rali flynyddol, ar y 25ain o Fai yn fferm Tai Hirion, Padog, ger Betws y Coed LL24 0LU
Am fwy o wybodaeth am y cynllun cysylltwch â'ch clwb lleol, neu Swyddfa Sir Eryri ar 01286 677513
Gan obeithio y gwelaf i chi i gyd yn y Rali!
Gyda diolch,
Allen Wynne Owen, Llywydd Sir, Ffermwyr Ifanc Eryri.(2018-19)

---

Annwyl Olygydd,
Efallai bydd eich darllenwyr wedi gweld yn y wasg y difrod difrifol a achoswyd gan lifogydd i erddi Castell Gwydir, ger Llanrwst. Bryd hynny, a ninnau yn ddigalon iawn, dywedasom na fyddai modd inni agor ar gyfer tymor 2019 am gryn amser.
Fodd bynnag, diolch i anogaeth a gwaith caled ein tîm o gefnogwyr gwirfoddol, mae gwell trefn arnom ni erbyn hyn nag oeddem ni wedi gobeithio, a'n bwriad yw agor ar gyfer y Pasg. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ymwelwyr, nid yn unig i edrych o gwmpas y tŷ, sy'n dyddio o'r 16eg ganrif, a'i erddi helaeth (mae'r ddau wedi'u cofrestru'n Raddfa I), ond hefyd i weld a chlywed yr hyn sy'n cael ei wneud i osgoi difrod gan lifogydd yn y dyfodol.
Yn anffodus, gall pobl sydd wedi darllen yr hanes yn y wasg fod dan yr argraff fod y Castell ynghau o hyd.
Byddwn i'n ddiolchgar iawn pe gallech roi gwybod i'ch darllenwyr ein bod ni erbyn hyn yn agored, o ddydd Mercher hyd ddydd Sadwrn (a bob dydd Llun Gŵyl Banc) o 10am tan 4pm hyd ddiwedd mis Hydref. Mae croeso iddynt gysylltu â ni dros y ffon neu drwy'r e-bost gydag unrhyw ymholiadau.
Gyda diolch am eich cymorth,
Castell Gwydir, Llanrwst, Conwy, LL26 0PN;
01492 641687, info@gwydircastle.co.uk, www.gwydircastle.co.uk

---

## Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Nos Fawrth, Chwefror 19eg, cafodd y Cylch gwmni William H. Owen, Bangor, i drafod hanes "Y Cymro". Cawsom noson tu hwnt o ddifyr ac addysgiadol.
Cychwynnodd Y Cymro fel misolyn yn ôl yn 1830 a'i argraffu yn Llundain. Erbyn 1832 roedd wedi diflannu, ond yn codi yn bapur wythnosol ym Mangor yn 1848, gan gynnwys peth newyddion lleol fel hanes y Llys Chwarter yng Nghaernarfon.
Fe symudodd yn ôl i Lundain cyn symud wedyn i Dreffynnon, Dinbych, Lerpwl a'r Wyddgrug. Yna darfod eto yn 1909, cyn atgyfodi yn Nolgellau yn 1914. Hanes cymysg wedyn hyd 1932 pryd yr ymddangosodd ar ei newydd wedd. Yn 1939 daeth John Roberts Williams yn Ohebydd ac yna yn Olygydd yn 1945. Roedd gan Goronwy Roberts a Gwilym O. Roberts eu colofnau rheolaidd ynddo.
Wedyn cafwyd bri mawr ar y gystadleuaeth "Ble mae'r Bêl?" a "Pwy yw'r Berta?" a lluniau o briodasau'r dydd, hyn i gyd yn denu darllenwyr.
Yn 1951 daeth y Cymro Bach i fri a chystadlaethau yn denu plant i ymgeisio dros Gymru gyfan. Cyn hir roedd aelodaeth y plant wedi cyrraedd dros y miliwn.
Daeth y rhifyn olaf allan yn Rhagfyr 2017, a bellach mae yna newydd wedd arall ar y papur ac mae yn ôl yn fisolyn!
Noson tu hwnt o ddifyr ac fe ddiolchwyd yn gynnes iawn i Wil am ei waith trwyadl gan Lis Lloyd Davies.

## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

£10 - Helen Munro, Llanrug

- Dienw, Llanrug

- Alan Pritchard, Dolafon

£40 - Dafydd a Linda Pritchard er cof am eu merch Iona

-Dienw, Llanrug

£5 - Nant a Tegid Roberts


## Aduniad Ysgol Brynrefail 1974 - 1979/81

Bydd aduniad Ysgol Brynrefail yn cael ei gynnal yng Ngwesty Padarn Lake, Llanberis, nos Sadwrn Mehefin 22ain, 2019 i gyn ddisgyblion oedd yno rhwng 1974 i 1979/81. Cost y pen fydd £5.00
Cysylltwch â Gillian Price, Georwen Griffiths Owen, Eirian Jones neu Iolo Evans drwy facebook / messenger.

ECO'r Wyddfa

## CYFARFOD BLYNYDDOL "ECO'R WYDDFA"

Nos Iau, 16eg o fis Mai am 7.00 yr hwyr.
Pete's Eats, Llanberis
Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb yn nyfodol y papur.




## Yn ystod y mis aeth heibio....

- Mae arwyddion swyddogol yn annog perchnogion i gasglu baw eu cŵn yn amlwg ym mhob pentref drwy'r fro, ond yn cael prin effaith o gwbl ar rai. Yn Neiniolen mae rhywrai wedi gosod arwydd 'answyddogol' mwy effeithiol o lawer o ran siarad plaen (gweler uchod); gyda bagiau pwrpasol wedi eu hongian gerllaw. Amser a ddengys pa mor llwyddiannus fydd yr ymgyrch.
- Ers dechrau'r flwyddyn dreth yn ystod wythnos gyntaf Ebrill, yr hawl i godi treth incwm yng Nghymru yn dod dan reolaeth Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf. Y Llywodraeth Lafur yn penderfynu na fydd newidiadau yn y dreth nes bydd etholiadau'r Cynulliad wedi eu cynnal yn 2021.
- Datblygwyr mewn nifer helaeth o safleoedd led-led y wlad yn gorchuddio gwrychoedd gyda rhwydi mân i atal adar rhag nythu. Amgylcheddwyr yn uchel eu beirniadaeth o'r fath gynllun, ac mewn rhai ardaloedd, y rhwydi wedi cael eu tynnu i lawr dros nos. Hyd y gwyddom, does dim enghraifft o hyn yn digwydd ym mro'r "Eco".
- Eglwys Notre-Dame ym Mharis yn llosgi. Y difrod mwyaf erioed yn hanes yr eglwys sy'n wyth canrif a hanner oed. Arlywydd Ffrainc yn addo ei hail-adeiladu a'i hadfer o fewn pum mlynedd. Cyfraniadau gwerth miliynau o bunnau'n cael eu hanfon o bob cwr o'r byd i dalu am y gwaith........
- ........ tra yn China, y Crwban Yangtze benywaidd olaf yn y byd yn marw. A phe bai holl filiynau Notre-Dame yn cael eu harall-gyfeirio, byddai'n rhy hwyr i achub y crwban arbennig hwn. Ac y mae'r un mor wir am goedwigoedd glaw a sawl planhigyn a chreadur arall sydd mewn peryg o fynd i ddifancoll. Mor barod ydym i wario ar gynnal ac adfer creiriau dynol, ac mor amharod i warchod yr hil ddynol rhag hunan ddifodiant.
- Y grŵp amgylcheddol Extinction Rebelion yn anelu am "gau Llundain" drwy geisio atal trafnidiaeth yn y ddinas er mwyn tynnu sylw at yr argyfwng ecolegol. Ac yn protestio yn ein hardal ninnau hefyd drwy hongian baneri yn hen Chwarel Dinorwig ac yng Nghastell Caernarfon gyda'r geiriau :"Lefel y Môr yn codi – Codwch gyda ni". 'Meddiannu' copa'r Wyddfa hefyd yn ystod y Pasg. Cynnig ar eu rhan yn cael ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd gan y Cynghorydd Catrin Wager o Fangor.
- Yn sgil y fandaleiddio a'r adfer ar yr arwydd 'Cofiwch Dryweryn', ein cyn-aelod seneddol Dafydd Wigley yn datgelu fod trafodaeth wedi ei chynnal yn Nhŷ'r Arglwyddi ar "Water Resources Infrastructure". Ac yn rhyw led-awgrymu y gallai "nationally significant water resources infrastructure projects" fod yn nwylo Llywodraeth Llundain er lles Lloegr – ac o bosib ar draul Cymru. Ehangu cronfeydd sy'n bodoli'n barod neu adeiladu rhai o'r newydd – er mwyn diwallu syched Lloegr? Peidiwn ag anghofio Tryweryn.
- Gwres a haul. Do cafodd y miloedd eu denu yma yn ystod gwyliau'r Pasg, a diffyg lle yn cael llawer o sylw. Diffyg lle ar yr Wyddfa, a cherddwyr yn gorfod aros i gyrraedd y copa. Diffyg lle parcio (honedig) a degau o fodurwyr yn cael eu dirwyo am barcio'n anghyfreithlon ar Fwlch Llanberis a throsodd am Ben y Gwryd, Yr un broblem hefyd yn Nant Ffrancon a ger Llyn Ogwen.



# BETHEL

## PWYLLGOR Y DI-FFIB







Ganol y mis cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddi defnyddio'r di-ffib. Daeth criw da i'r Neuadd Goffa, a da o beth yw gwybod fod mwy bellach ar gael i weinyddu pe deuai'r galw. Diolch unwaith eto i Dafydd o fudiad Calonnau Cymru am ei hyfforddiant dyheig. Braf oedd gweld plant hefyd yn mynychu'r cyfarfod, ac ambell i dedi yn cael ei ddefnyddio fel arf hyfforddi. Diolch i chwi blant, a phwy a ŵyr na fydd rhywun yn elwa o'ch ymroddiad yn y dyfodol. Dwyn i gof nifer o ganghennau Urdd Sant Ioan a frithai'n broydd ganol y ganrif diwethaf.

## YMWYBYDDIAETH



Dymuna Diane Rowlands ddiolch o galon am y criw niferus a ddaeth i'r Neuadd Goffa am bnawn cymdeithasol i ymledu ymwybyddiaeth o gyflwr epilepsi. Roedd cyfle hefyd trwy wahanol weithgareddau i gyfrannu'n ariannol at ymchwil i'r cyflwr. Yn cyd-drefnu roedd chwaer Diane, Nicola Watson o'r Felinheli.

Mae Diane yn dioddef o epilepsi ers yn 14 oed, ac yn ddiweddar cafodd Nicola wybod bod ei merch bach, Enlli, 4 oed, hefyd yn dioddef o'r cyflwr. Roedd digon o fwyd wedi ei baratoi, a chastell neidio ac ambell weithgaredd arall i'r plant. Cynhaliwyd ocsiwn – diolch am y cyfraniadau – ac hefyd y raffl fawr a chwyddwyd drwy ddefnydd Facebook. Ar ddiwedd pnawn o adloniat ac addysg, casglwyd y swm anhygoel o £1900. Diolch i bawb a gyfranodd mewn unrhyw fodd.

## Merched y Wawr



Blodau! Blodau! Blodau! Roedd festri Capel Cysegr yn llawn blodau nos Fercher Ebrill 10fed A'r rheswm oedd bod trysorydd y gangen, Cecile Roberts sy'n ardderchog am drafod arian ond hefyd yn ardderchog am drefnu blodau am ddysgu grefft i ninnau. Roedd pawb wedi dod â'u blodau eu hunain ynghyd â sisyrnau addas a buom wrthi'n ddyfal ac yn wir llwyddo i greu addurniadau deniadol, gydag ambell i gampwaith erbyn y diwedd. Roedd pawb mewn hwyliau mor dda fel na fu trafferth o gwbwl ethol is- swyddogion ar gyfer 2019/20. Yr is-lywydd fydd Anita Owen, Eleri Warrington yn is-drysorydd a Rhian Hughes yn gyd is-ysgrifennydd gydag aelod o'r pwyllgor.

Dydd Sadwrn Mehefin y 15fed bydd ein gwibdaith pentymor i Ysbyty Ifan. Enwau ac arian yn ein cyfarfod mis Mai os gwelwch yn dda. Hefyd bydd croeso i unrhyw un nad yw'n aelod ymuno efo ni. Cost y bwffe fydd £15.95.

## LLONGYFARCHIADU



Mae dau grwp dawnsio disgo o Adran Bentref Bethel yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ddiwedd mis Mai. 'Gwallgof' fydd yn cystadlu yn oedran Blwyddyn 7 i 9, a 'Cythral Mewnol' Blwyddyn 10 – dan 19 oed. 'Cythral Mewnol' sydd yn y llun. Pob lwc i'r genod yng Nghaerdydd.

### LLONGYFARCHIADAU

I Sion a Mair Williams 15 Y Ddôl, ar gyrraedd eu penblwydd briodas ruddem yn ddiweddar. Ymlaen rwan y ddau ohonoch at yr aur – yr 'uwchfynydd' nesaf! Ac anrheg amserol iawn gan Spurs.

Llongyfarchiadau hefyd i Kaylee a Ben Harding ar enedigaeth merch fach, Madison Carys, draw yn Llundain. Mae Kaylee yn ferch i Alwynne a Janet Jones, 10, Y Ddôl. Llongyfarchiadau taid a nain Bethel.

### OS HOFFECH GEFNOGI

Bydd Kelly O'Donnell, 14 Cremlyn yn cystadlu yn Râs yr Wyddfa eleni., ac eisioes wedi dechrau ymarfer am yr her. Yn naturiol mae Kelly yn ymwybodol ei bod wedi codi mantell ei diweddar ŵr Rory wrth wynebu'r her. Amcan Kelly yw tynnu sylw at Gancr yr Oesophogus, sydd yn cael gryn sylw ar hyn o bryd. Eisioes mae sawl un wedi noddi Kelly a bydd yr holl arian a gyfranir yn mynd at Gronfa Ymchwil Cancr yr Oesophogus dan ofal Tenovus. Os hoffwch noddi Kelly gallwch gysylltu yn uniongyrchol neu gadael eich rhodd gyda Cled a Susan yn y Post.

Llongyfarchiadau hefyd i'w mab Callum, 16 oed. Yn ddiweddar cafodd wahoddiad i ymweld a'i dywys o gwmpas un o golegau prifysgol Caergrawnt. Bwriad Callum yw astudio meddygaeth. Tipyn o fraint i un mor ifanc. Pob dymuniad da i ti Callum.

### YDY'R DREFN YN PLESIO?

Ydych chwi wedi cynefino â'r amserlen bws newydd? Mae'n ymddangos mae'r brif gŵyn yw na atebwyd y galw am fws wedi 6pm. Amser a ddengys. Y mwy o ddefnydd o'r bysiau, y mwy parod fydd y cwmni bysiau i ymateb mae'n siwr.

### CLWB BRO

Cafwyd pnawn diddos yn y cyfarfod diwethaf yng nghwmni Huw Price Hughes. Yn gyn-blismon, ac ysgrifennydd y Gymdeithas Bysgota Leol gallai fod wedi ein diddori gydag atgofion o'r meysydd hynny. Ond at un arall o'i ddiddordebau aeth a ni – ysbrydion! Cyfaddefodd Huw ar y cychwyn ei fod o linach teulu o 'gredwyr' yn Neiniolen. Fe'n synnwyd fel cynulleidfa bod y testun yn mynd a ni i sawl lleoliad lleol, fel Neuadd Trawsgoed, Rhiwlas a hyd yn oed yr 'hen wreigan' yng Nghefn Bach, Bethel. Nifer o leolfanau yng Nghaernarfon, a phwyslais amlwg ar ardal yr hen gelloedd o dan Neuadd y Sir bellach. Y cysylltiad amlwg hefyd gyda Thwr y Crogi yn yr un ardal. Soniodd am gorff merch y darganfuwyd ei gweddillion yn ardal Tafarn y Black Boy, Caernarfon. Roedd y corff wedi ei osod yn daclus, ac arno ol gwaith llawfeddyg. Roedd hyn yn ddiddorol gan mai Stryd yr Eglwys 150 o flynyddoedd yn ôl oedd mangre 'clinigau' y llawfeddygon. Cyn y baned cafwyd sgwrs ddiddorol, ac ambell un a'u stori bersonnol am fyd yr ysbrydion. Roedd rhai yn barod i gytuno â sylw T.H. Parry-Williams am y Tylwyth Teg – 'welais i rioed un, ond mae nhw'n bod'

Yng nghyfarfod Mai byddwn yn cael cyfarfod 'rhannu ceir' trwy ymweld a Storiel ym Mangor. Byddwn yn cael ein tywys o gwmpas yr amgueddfa, ac yna cyfle am baned a sgwrs. Os oes rhywun angen cludiant cysylltwch a Mary a Richard. (670115)

### CROESO ADREF

Mae enwau Glenys a Siencyn dal i fritho sgyrsiau yma. Fel arfer yr amser yma o'r flwyddyn buasai'r meibion ar wasgar – Aled yng Nghanada, a Dewi yn Sowth – yn dod 'adra'. Rwy'n clywed fod y traddodiad wedi cario ymlaen ar yr aelwyd 'newydd'. Daeth Aled a'i wraig adref gyda'r anrheg gorau un i Glenys a Siencyn – sef Evan eu ŵyr bach cyntaf. Rwyn siwr fod yna hen fwytha. Cofion cynhesaf atoch fel teulu.

### YMDDEOLIAD

Dymuniadau gorau i Anti Joyce – Joyce Gaffey - wedi ei ymddeoliad o Ysgol Bethel ddiwedd tymor y Pasg. Bu Joyce yn gyffaeliad mawr i'r ysgol nid yn unig fel aelod o'r staff ond fel llywodraethwr a chlerc i'r llywodraethwyr. Fe lanwodd Joyce sawl bwlch yn yr ysgol dros ei chyfnod yno. Mwynha dy ymddeoliad Joyce – ac mwy o amser bellach yn y brif swydd, sef nain draw yng Nghaerdydd yna.

### ADEILADU

Mae'r tai dan reolaeth cwmni Cynefin, gefn â Chapel Bethel bellach wedi eu gosod. Mae arwyddion hefyd fod Cwmni Burgess yn barod i ddechrau gwaith gyferbyn â Stad y Rhôs. Yr un modd mae rhybuddion o gwmpas Capel Bethel yn rhybuddio i gadw allan. Edrychwn ymlaen i weld ym mha gyfeiriad bydd y datblygiad yno yn mynd o gofio fod yr adeiladau yn 'gofrestredig'. Ie, bydd Bethel yn newid yn sydyn iawn.

### OEDFAON MAI

SARON : 5/5 Parch. Gwynfor Williams 12/5 Rhian Evans-Hill 19/5 T. Alun Williams 26/5 Parch. Richard Gillion ( Cymun)

CYSEGR : 5/5 Arwel Williams 12/5 Gweinidog 19/5 Parch. John Pritchard 26/5 Gweinidog

BETHEL: 5/5 Parch. R.E. Hughes 12/5 Tony jones 19/5parch. Reuben Roberts 26/5 DG

### MEDDWL AM ERAILL

Mae cyfeirio at faw cŵn a pharcio – neu diffyg lle parcio – wedi bod yn destun sawl cyfeiriad yn y golofn hon – problem sy'n gyffredin i nifer o bentrefi'r fro. Yr hyn sy'n cynddeiriogi pentrefwyr yw mai agwedd hunanol ambell unigolyn heb unrhyw gonsyrn dros eraill sy'n creu'r broblem. Mae hyn wedi codi ei ben unwaith eto yn Saron, ble mae parcio afreolus yn ei gwneud hi'n annodd – neu amhosib – i'r loriau casglu eitemau ail-gylchu fynd hyd rhai o'r strydoedd. Mae pob un ohonom yn talu trethi ac felly yn haeddu yr un gwasanaeth safonol.

## Dyfodol Siop y Pentref

Mewn ymateb i'r adroddiad yn rhifyn Ebrill o'r "Eco" am ddyfodol Siop y Pentref, derbyniwyd y llythyr canlynol. Mae croeso i eraill o drigolion y pentref ddatgan eu barn a'u syniadau am y dull gorau o sicrhau dyfodol i siop gymunedol o fewn y pentref.

*"Annwyl Olygydd,*

*Dwi'n sgwennu atoch i ymateb i rai o sylwadau Gari Wyn yn Eco'r Wyddfa yn ddiweddar.*

*I ddechrau, mae'n bwysig i bobl Bethel wybod fod pedwar o hogia lleol wedi bidio i gael y Bedol, a'i agor fel tafarn o fewn rhyw fis. Siom fawr oedd i rywun arall gynnig mwy o bris amdano.*

*Mewn ateb i'r honiad mai dim ond un cyflogwr sydd ym Methel, rhaid i mi ddweud fod sawl cyflogwr arall yn ogystal a Ceir Cymru – er enghraifft, Seion Enterprise (30 o weithwyr, a'u hanner yn lleol); Cwmni H.F.Owen (12); Siop a Swyddfa Bost (4), a nifer o gyflogwyr bach eraill.*

*Pan oedd pobl y pentref yn cyfarfod i siarad am be oedd yn mynd i ddigwydd i'r Siop a'r Swyddfa Bost, cynigiodd Gari Wyn y Bedol*

*am £1200 yn y cyfarfod cyntaf, ac yn yr ail gyfarfod cynigiodd rent o £400 am y rhan sy'n cynnwys y bar.*

*Am fod y siop wedi bod yn y safle presennol ers dros 60 mlynedd, ni fyddai symud i safle'r Bedol yn syniad da o gwbl am y byddai hynny'n achosi pryder o safbwynt croesi'r ffordd. Bydd y lon newydd, sy'n cael ei chodi ar hyn o bryd, yn achosi mwy o beryglon ym Methel gan y byddai llawer mwy o draffig yn defnyddio'r ffordd drwy'r pentref.*

*Yn gywir,*
*Cledwyn Jones*
*Post Bethel"*

# *Pencerdd Alltwen a Humphrey Griffith*



Mwynheais yr erthygl am y gŵr uchod, er imi fod yn gyfarwydd â'i hanes eisoes, fel un yn ymddiddori yn hanes Cymry America. Yn ychwanegol at yr hyn a ddywedwyd yn yr erthygl, gallaf ddweud i Owen John Griffith/s (Pencerdd Alltwen) gael ei eni yn y flwyddyn 1881, ac iddo farw yn Manhattan, Efrog Newydd, Chwefror 16 1925, ychydig cyn ei ben-blwydd yn 54 mlwydd oed.

Cafodd ei enw gorseddol 'Eilydd Alltwen' ac yna 'Pencerdd Alltwen' ar ôl Alltwen, y bryn coediog sydd yr ochr arall i Lyn Llanberis, ger Ysbyty'r Chwarelwr. Nos Fercher, Mehefin 6ed 1917, unwyd ef mewn priodas â Miss Margaret Jones, gynt o Fferm Brithdir, Gwaen Cwmbrwynog. Yn gwasanaethu fel gwas a morwyn oedd Richard Griffith/s, brawd y priodfab a Miss Annie Jones, chwaer y briodasferch. Cymerodd yr amgylchiad le yng nghartref y Parchedig Joseph Evans BA, BD (1878-1940), gweinidog efo'r Annibynwyr. Brodor o Abernant, Sir Gaerfyrddin oedd Joseph Evans a bu'n weinidog yn Chwilog, Eifionydd o 1906 i 1907, ac yn y de ar ôl hynny. Daeth yn weinidog ar Gapel Cynulleidfaol Cymraeg Dinas Efrog Newydd, a dros y ffin yng Nghanada, dychwelodd yn ei ôl i Gymru yn 1936, yn weinidog ar Ebeneser, Caerdydd, lle y bu farw yn 1940.

Enw cartref brawd y Pencerdd, sef Richard O.Griffith/s oedd Bryn Llys, yn nhref Fairhaven, Vermont.

Awdur yr erthygl wreiddiol oedd Humphrey Griffith, Utica (llun uchod). Mab ydoedd i Mr a Mrs Thomas Griffith/s, Gerlan, Clwtybont. Bu ei fam farw yn 1917 a chladdwyd hi yn Macpela. Bu yr elfen anturiaethus yn gryf ymysg y teulu. Enillodd dau neu dri ohonynt glod fel milwyr yn y Rhyfel Mawr Cyntaf, a chasglodd rhai ohonynt gyfoeth mawr. Un o frodyr Humphrey Griffith oedd William, dynwaredwr medrus a fyddai yn portreadu yn fynych rai o gymeriadau doniol y chwarel. Bu yna un achlysur pan ddihangodd William i Wrecsam i ymuno â'r Catrawd Cymreig. Gwnaeth hynny oherwydd iddo yn anfwriadol ladd cath oedd yn eiddo dyn go flin yn yr ardal, a phan fygythiodd hwnnw y gyfraith arno aeth William yn syth i Wrecsam a gwisgwyd amdano y got goch ond, cyn iddo ei gwisgo ddeuddydd, yr oedd ei dad yno gyda arian parod yn ei law i dalu am ei ryddhau.

Ond ni fu yr un o'r teulu mor amlwg a Humphrey Griffith ar y llwyfan ac yn y wasg. Bu ei gysylltiad ag Undeb y Chwarelwyr Gogledd Cymru yn un agos am ugain mlynedd. Cynrychiolodd chwarel y Glyn Isaf, Llanberis, am ddeng mlynedd ar y Cyngor Cyffredinol yng Nghaernarfon. Bu hefyd yn Llywydd yr Undeb yn chwarel Glyn Uchaf am dair blynedd. Ei anrhydedd pennaf, yn ôl ef ei hun, oedd cael ei ddewis i gynnig pleidlais o ddiolchgarwch i'r Prif Weinidog, David Lloyd George, yn yr Ŵyl Lafur yng Nghaernarfon.

Yr oedd yn llenor cymeradwy. Enillodd wobrau am draethodau pan oedd yn ifanc yn ardaloedd Ffestiniog, ond materion cymdeithasol gafodd fwyaf o'i sylw. 'Hawliau'r Gweithwyr', 'Perthynas Cyfalaf a Llafur', ayyb. Ysgrifennodd lawer i bapurau Cymru ar Ryfel De'r Affrig. a mwy na neb arall mae'n siŵr i'r Drych ar y Rhyfel Byd Cyntaf, ei achos a'i effeithiau, ac ar yr 'Ymerodraeth Brydeinig'. Yr oedd ei fab, Hugh, yn y ffosydd rhywle yn Ffrainc. Ymddangosodd ysgrifau diddorol Humphrey Griffith ar 'Gymeriadau Waen Gynfi' ac un arall am ei gyfaill a'i hen weinidog, Y Parchedig O.G. Owen (Alafon), Ysgoldy, Clwt y bont, hefyd yn y Drych.

Yr oedd yn flaenllaw yng Nghapel Bethesda (A), Utica, lle bu'n ysgrifennydd yr eisteddfod, ac yn arolygwr yr Ysgol Sul. Yr oedd yn Llywydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn Bethesda ac yn aelod o'r Cymreigyddion. Merch Hugh Williams, Ysgoldy, oedd ei briod, nith i 'Elidirfab', awdur 'Y Bwthyn ar y Bryn'. Magwyd y ddau o fewn ychydig lathenni i'w gilydd.

W.Arvon Roberts

Pwllheli







## LLANRUG Eryl Roberts, Peris,56 Glanffynnon (675384)

**Eglwys Sant Mihangel yn y Sefydliad Coffa**
Mai 5ed am 10: Eglwys Cafe
Mai 19eg am 10: Cymun Sanctaidd.

**Diolch.** Dymuna Eirianwen Thomas, Bron y Nant, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra yn yr ysbyty yn ystod y mis diwethaf. Mae'n gwerthfawrogi'n fawr y galwadau ffôn, yr ymweliadau a phob arwydd o ddymuniadau da a ddangoswyd tuag ati.

**Diolch.** Dymuna Tomos Owen Hughes, 6 Hafan Elan, ddiolch o galon i'w deulu,ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei benblwydd yn 95.

**Diolch.** Hoffai Diana, Mark a Gareth Jeffs ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt ar ôl colli John, gan gymdogion a ffrindiau. Diolch i bawb am eu haelioni. Casglwyd £1.300 tuag at Hosbis yn y Cartref ac Ambiwlans Awyr er cof am John.

**Ffair Haf Ffrindiau Ysgol Gynradd Llanrug.**
Bydd y Ffair Haf yn cael ei chynnal yn ystod yr wythnos gyntaf ym Mehefin. Dyma'r digwyddiadau i edrych ymlaen amdanynt:
Nos Fawrth 4ydd: Helfa Drysor Car.
Nos Fercher 5ed: Ras plant & Ras 5k.
Nos Iau 6ed: Bingo
Pnawn Sadwrn 8fed Ffair Haf.
Yr orymdaith yn cychwyn o Nant y Glyn am un o'r gloch y pnawn. Y plant i gerdded mewn gwisg ffansi. Edrych ymlaen am bnawn llawn hwyl i'r teulu i gyd.

**Plaid Cymru**
Enillwyr Clwb cant Mis Ebrill:
1.. Sion Humphreys 2 . . Leslie Larsen

**Babi** Newydd Llongyfarchiadau mawr i Huw a Kathy McKinnon, Fferm Plas Tirion, ar enedigaeth Griff Huw, brawd bach i Ela Ruby ac ŵyr i Dafydd a Carid, nai i Bethan a Shaun.

**Llongyfarchiadau** Hoffwn longyfarch Lisa Evans, Gwên y Wawr, Stad Glanffynnon, ar ei phenodiad yn Brifathrawes Ysgol Llangoed, Ynys Môn. Ardderchog, Lisa, pob dymuniad da i ti.

**Diolchiadau** Dymuna Mrs Jennie J. Owen, 7 Hafan Elan, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gefnogaeth a gafodd tra yn sâl yn yr ysbyty ac adref. Diolch am yr holl gyfarchion, ymweliadau a blodau a dderbyniodd.
Mor falch eich bod adref yn awr ac yn gwella. Cofion gorau atoch.

**Salwch** Deallwn fod Iorwerth Williams, 1 Ffordd Glanffynnon, wedi bod yn yr ysbyty am 6 wythnos yn dilyn codwm a difrodi ei ben-glin. Mae yntau adref nawr ac yn gwella yn araf. Cymerwch ofal.

**Priodas Ruddem**
Llongyfarchiadau mawr i Emyr a Heulwen Parry, 57 Glanffynnon, ar ddathlu eu Priodas Ruddem. Maent wedi ael amser arbennig yn dathlu yn Nice yn Ffrainc.

**Babi** Newydd Llongyfarchiadau mawr i Margaret Williams, Nant y Glyn, ar ddod yn hen nain i Eryn Arianwen. Pob dymuniad da i'r teulu.

**Profedigaeth** Cofiwn at Carys a Rolant Wyn, Sion ac Elin, Guto a Hannah, ac Owain a Gwerino, yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain, sef Mrs Elsie Jones, a fu farw yn 102 mlwydd oed. Cafodd ofal hynod gan y teulu i gyd.

**Profedigaeth** Yn 57 mlwydd oed, yn sydyn iawn, bu farw Geraint Wyn Williams, 38 Bro Rhyddallt. Gŵr annwyl Yvonne, tad hynod Mathew, Samantha, Jason, Tomos, Stacey, Zoe a Molly. Taid annwyl Guto, Lois a Hari. Colled enfawr i chi i gyd fel teulu. Byddwn yn meddwl amdanoch yn eich profedigaeth fawr.


**Diolchiadau** Dymuna Dafydd a Lynda Pritchard, Simon Hilldrup a Lois Wiggins, ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth i gasglu arian tuag at y 'Brain Tumor Charity' er cof am Iona Hilldrup (Pritchard gynt).
Yn drist iawn a chyn ei hamser, fe gollodd Iona ei brwydr ddewr ar y deunawfed o Orffennaf 2018 wedi pedwar mis ar bymtheg brwnt a chaled. Ym mhen olaf ei hoes cafodd ofal tu hwnt o arbennig ac o'r safon uchaf yn Hospis Tŷ Olwen, Ysbyty Treforys. Mae ein diolch iddynt yn mynd tu draw i unrhyw eiriau. Aeth Iona i Lundain yn ddeunaw oed i wneud hyfforddiant nyrsio yn Ysbyty Guys ac wedyn ymlaen i Ysbyty Saint Siôr. Preswyliodd gweddill ei dyddiau ym Mhontardawe gyda'i gŵr, Simon, a'u plant Aurian a Ioan, lle bu yn nyrsio yn Ysbyty Treforys. Diolch yn fawr iawn i'r teulu am eu cefnogaeth parod a phob cymwynas. Diolch i'n ffrindiau, cymdogion a phentrefwyr oll o bob cwr o'r wlad am eu hoffrwm hael a aeth at yr achos. Diolch hefyd i ffrindiau lu Iona, yn cynnwys Lona Pierce Roberts am drefnu taith gerdded Yr Wyddfa, ac i Santander am match funding ardderchog. Diolch i Louise Richards am drefnu gwasanaeth yng nghapel Gellionnen yn cyd-redeg gyda ni yn y gogledd ar ddiwrnod yr angladd. Diolch yn fawr i dafarn Glyntwrog am gynnal raffl ac i Jason Parry Jones am gynrychioli yr elusen ym Marathon Eryri.
Rydym yn falch dros ben o gael cyhoeddi fod y swm terfynol wedi cyrraedd dros £10,000 ac mae eisoes wedi ei dderbyn gan yr elusen. Diolch o galon i bawb. Mae cancr yr ymennydd yn cipio mwy o fywydau o dan ddeugain oed nac unrhyw gancr arall ac eto, dim ond llai na 2% mae'r llywodraeth yn ei gyfrannu tuag at ei ymchwil.

**Merched y Wawr** Nos Fawrth, Ebrill y 9fed, cychwynnwyd noson gyda chroeso cynnes gan y Llywydd, Bethanne, a dilynwyd gyda Chân y Mudiad. Derbyniwyd rhai ymddiheuriadau ac anfonwyd ein cofion anwylaf at Menna ac Eirianwen. Dymunwyd pob lwc i'r tîm sy'n mynd i Fowlio yng Nglasfryn ar Ebrill 26ain.
Dymuna aelodau Pwyllgor yr Anabl ddiolch i'r aelodau am eu cefnogaeth hael tuag at Awtistiaeth ac awgrymir i bob cangen a rhanbarth Arfon gyfrannu arian raffl eu cyfarfod am un mis yn lle trefnu Ffair Haf. Cyflwynwyd ein cyfraniad mis Ebrill at elusen Cŵn Tywys.
Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ddydd Sadwrn, Mai 11eg am 9.30 yn Ysgol Friars, Bangor. Mae rhaglen lawn ar ein cyfer a chinio blasus. Yr artistiaid eleni fydd Arfon Gwilym a Sioned Webb, Mair Tomos Ifans, Liz Saville Roberts AS, Alan Pritchard a'i waith yn Affrica a Chôr Meibion Bro Goronwy. Cydymdeimlwyd yn ddwys â Carys Wyn a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam annwyl Carys, mam yng nghyfraith hoff a nain a hen nain falch. Diolchodd Carys am y llu cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn a'r cyfraniadau hael.
Estynnwyd croeso cynnes i'r siaradwr gwâdd, sef Dr Paula Roberts, Uwch Ddarlithydd Ysgol Gwyddorau Naturiol Prifysgol Bangor, wedi ei magu yn Llanberis ac yn byw yno ar hyn o bryd. Ar ôl gadael ysgol bu'n gweithio fel Warden Cefn Gwlad. Aeth i Brifysgol Bangor i astudio Gwyddor Amgylchedd ac wedi hynny gwneud Doethuriaeth mewn Gwyddorau Pridd. Mae'n Uwch ddarlithydd ym Mhrifysgol Bangor ar hyn o bryd ac fe'i clywir yn aml ar y rhaglen wych Galwad Cynnar ar Radio Cymru ar fore Sadwrn. Cawsom orig ddifyr ac addysgiadol iawn yn ei chwmni yn sôn am ei theithiau pegynol ac am ryngberthynas planhigion a phridd. Gwelsom luniau arbennig o'i theithiau i'r Arctig ac Antartica. Yn yr Arctig bu'n astudio newid trwch eira. Yn Antartica bu'n astudio llysdyfiant cen a mwsogl. Roedd y lluniau o'r anifeiliaid, adar a phlanhigion yn eu cynefinoedd yn hynod o ddiddorol a thrawiadol. Diolchwyd iddi am noson hynod o ddifyr a phleserus.
Y mae Cangen Merched y Wawr Dinas, Llanwnda, yn cynnal noson yng nghwmni Rhisiart Arwel nos Lun, Mai 13eg, am 7.30 yng Nghanolfan Bro Llanwnda. Noddir y cynllun gan 'Noson Allan Fach' Celfyddydau Cymru ac mae croeso cynnes i bawb.
Diolchir i Eryl, Margaret, Mair a Rhian am ofalu am y baned. Enillydd y raffl oedd Susan. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol nos Fawrth, Mai 14.

**Cydymdeimlad.** Gyda thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth gyn-amserol Llywelyn, mab annwyl Robin a Gwenno Williams, Swn y Gwynt, a brawd Rhodri, Rhun a Rhydian. Colled enfawr i'r teulu ac i sawl mudiad yn yr ardal. Anfonwn ein cydymdeimlad â chwi yn eich profedigaeth.

Marchnad Ogwen
Neuadd Ogwen, Bethesda
(Marchnad Mehefin ar gae Sioe Dyffryn Ogwen)
Ar yr ail Sadwrn yn fisol 9.30 - 1.00
Bwydydd • Crefftau • Lleol
www.marchnadogwen.co.uk

E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202




# Cerdded a Darganfod – Teithiau Mai

GWENER 10 MAI 2.00yp

HANESION TAN Y COED A BRYN BRAS, LLANRUG (3 MILLTIR)

CYCHWYN: CAE CHWARAE GLANMOELYN, LLANRUG SH 53228 63350

HAWDD. UN LWYBR CYHOEDDUS ANWASTAD. SGIDIAU CERDDED.

MERCHER 22 MAI 2.00yp

LLANRUG I CAE METTA A CYRION DINAS DINORWIG (3½ MILLTIR)

CYCHWYN: STAD BRO RHYTHALLT, LLANRUG

SH 54271 63409

CYMEDROL. SGIDIAU CERDDED.

GWENER 31 MAI 2.00yp

DINORWIG '50: TAITH HANES CHWAREL DINORWIG: RHIF 2 o 6

Y CHWAREL AR EI ANTERTH (1½ MILLTIR)

CYCHWYN: ALLT DDU, DINORWIG SH 59051 61079

EITHA HAWDD OND ANWASTAD AR ADEGAU. SGIDIAU CERDDED

# PASG 2019

Hyd erwau niwlog Derry, - mae hanes
yn mynnu mud-losgi.
Aelwydydd cof bwledi,
a'r cur oer ei phrocer hi.

Adlais i lwch a bedlam – y ddinas
oedd enaid yr henfam
a'i chroes pin ynoi'r dinam;
tyrrau Duw sy'n Notre Dame.

Richard Llwyd Jones


**ECO'r Wyddfa**

**Cefnogwch ein hysbysebwyr**









DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
••• 01286 673535 •••
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

**Eglwys St Helen**
Gwasanaethau Mis Mai am 11yb bob bore dydd Sul

**Gwasanaethau'r Pasg** Carai swyddogion yr Eglwys ddiolch i bawb a gyfrannodd flodau ac am eu cymorth yn addurno yr Eglwys mor hardd ar gyfer Gwasanaeth Bore Sul y Pasg, da oedd gweld cynulleidfa niferus iawn ac yn tyfu yn yr Eglwys i ddathlu Gŵyl y Pasg.

**Priodas** Dymunir pob bendith a hapusrwydd i Mr & Mrs Andrew Wanop a briododd yn yr Eglwys Ddydd Sadwrn y Pasg, Ebrill 20fed.

**Cronfa cynnal a chadw y fynwent** Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion canlynol tuag at gronfa cynnal a chadw y fynwent. £20: Mr & Mrs D. Owen, 7 Bryn Hyfryd Terrace; £20: Mrs J. Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen, a £20: gan Mr Kenneth Williams, Manceinion. Mae'r gwaith cyntaf o dacluso y fynwent eisoes wedi cymeryd lle

**Te tost a sgwrs** Croeso i bawb ymuno â ni yn y te tost a sgwrs yn Neuadd yr Eglwys am ddim bob bore Dydd Llun o 9 o'r gloch tan11y bore. Mae unrhyw rhodd drwy fis Ebrill a Mai yn cael ei gasglu tuag at gronfa diffibriliwr i'r pentref.

Gyrfaon Chwist Cynhelir Gyrfaon Chwist yn Neuadd yr Eglwys pob nos Fawrth am 7yh.

**Bingo Arian** Cynhelir Bingo arian yn Neuadd yr Eglwys pob nos Fercher, drysau yn agor am 7 ac yn ddechrau am 7.15yh.

Gweithgareddau y Carnifal
Bingo gwobrau Fe gynhelir Bingo gwobrau nos Wener, Mai 10fed, yn Neuadd yr Eglwys am 6.30yh. Yn ystod y noson yma fe fyddwn yn casglu enwau pawb sydd â diddordeb i fod yn frenhines a chwrt y Carnifal am 2019.

**Disco Mai 20 fed** Fe gynhelir disgo yn Neuadd yr Eglwys nos Lun, Mai 20fed, am 6.30yh. Yn ystod y noson yma fe fyddwn yn dewis ac yn cyhoeddi enw Brenhines y carnifal a'i chwrt.

**Ysgol Gymuned Penisarwaen**
Cwmni Tempest wedi bod yma yn tynnu lluniau disgyblion ar Fawrth 20fed, ac yna dychwelyd ar Ebrill 12fed i dynnu lluniau'r dosbarthiadau.

Ar Fawrth 26 mwynhawyd Sioe Gerddorol fywiog ac addysgiadol wedi ei chyflwyno gan y Brodyr Gregory ac eraill sydd yn hyrwyddo Arbed, ailgylchu ac ailddefnyddio. Sioe wedi ei threfnu a'i hariannu gan Drefi Taclus Gwynedd. Diolch iddynt am y cyfle. Disgyblion wedi mwynhau yn fawr iawn.

Trefnwyd ymweliad Addysgol i Chwarel Vivian a'r Gilfach Ddu dydd Mercher, Mawrth 27ain, i ysgogi disgyblion ar gyfer cychwyn thema newydd am y Chwarel. Cafwyd diwrnod gwerth chweil, y tywydd yn ffafriol a'r disgyblion wedi ymateb yn arbennig o dda.

Cynhaliwyd Gweithdy Cerddoriaeth Gymraeg dydd Mercher, Ebrill 3ydd, gan gwmni Ynni Da. Gweithdy Pŵer Pedal yn y prynhawn lle'r oedd y disgyblion yn creu ynni eu hunain i bweru disgo Cymraeg drwy reidio pedwar beic. Pawb wedi mwynhau, wedi gwneud ymarfer Corff ac agwedd disgyblion tuag at gerddoriaeth Gymraeg wedi newid erbyn diwedd y prynhawn.

Dydd Iau, Ebrill 4ydd – Mynychodd Yr ysgol gyfan Stiwdio Sain i recordio ar gyfer CD Canmlwyddiant Achub y Plant, wedi treulio'r diwrnod yno, profiad bendigedig, Daily Post a'r rhaglen Heno yno yn recordio eitemau. Rhagflas o'r gân "Mae 'na Obaith" sy'n cael ei chanu gan Gwyn Hughes Jones, Stacey Wheeler, Côr Ysgol Penisarwaun a Trio yn cael ei ddarlledu ar Heno ddechrau Mis Mai.

Dydd Llun, Ebrill 8fed, cynhaliwyd Sesiwn olaf Kerbkraft i'r Cyfnod Sylfaen a seremoni Gwobrwyo yn yr ysgol. Swyddogion Iau Diogelwch y ffordd wedi gwneud cyflwyniad i weddill yr ysgol ar y sgrin fawr yn y neuadd. Carys Ofalus wedi ymweld i longyfarch y disgyblion.

Blas ar Soddgrwth. Bore Iau, Ebrill 11eg, croesawyd Elin Taylor o Gwmni William Mathias i arddangos a chwarae'r soddgrwth i rai o'r disgyblion, Gobeithir y bydd hyn yn ffordd o ysgogi'r plant i gael gwersi Soddgrwth yn y dyfodol.

Cinio'r Pasg. Bu Anti Carolyn yn brysur iawn dydd Gwener, Ebrill 12fed, yn paratoi cinio blasus i bawb. Diolch yn fawr iddi.

**Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun**
**Pêl Bonws Loteri** Enillydd Mis Mawrth oedd Mrs Janice Jones, Tyddyn Perthi gyda rhif 24. Llongyfarchiadau!

**Marwolaeth** Dymuna teulu y diweddar Emyr Jones ddiolch o galon i bawb am eu geiriau caredig a'r gefnogaeth a roddwyd iddynt yn dilyn ei farwolaeth yn ddiweddar. Bu'r misoedd diwethaf yn rhai anodd iawn i ni fel teulu, ond bu cefnogaeth teulu, ffrindiau a chymdogion yn gysur mawr i ni.

Diolch yn arbennig i Staff Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon Y Felinheli, am y gofal tyner ac urddasol a gafodd Emyr yn ystod ei ddyddiau diwethaf.

Diolch hefyd i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth, ac i Gwmni E.W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr ar ddiwrnod yr angladd.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi eich cyfraniadau hael o dros £500 tuag at Gymdeithas MS Gogledd Cymru er cof am Emyr.

**Ysgol Sul Undebol Bosra** Sul y Mamau bu'r plant yn brysur yn gwneud cardiau arbennig i mam a chyflwyno rhosyn coch llawn cariad i'w mam am y gofal annwyl drwy'r flwyddyn. Bu hwyl a sbri Sul y Blodau yn creu cerdyn Pasg a chwilio am yr wyau siocled o gwmpas y cae chwarae. Cafodd pob plentyn wy siocled i ddathlu bywyd newydd y Pasg. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, Mai 5ed, o 10.00 hyd 11.15. Croeso cynnes o hyd i aelodau newydd.

**Eisteddfod Bentref** Cofiwch y dyddiad, sef Gorffennaf 10fed, ar nos Fercher am 6.00 'r gloch. Bydd yr ymarferion yn cychwyn wedi wythnos y Sulgwyn.

Cynhelir Pwyllgor am 7.30 i drefnu gweithgaredd i godi arian at yr Eisteddfod nos Lun, Mai 13.

**Apêl Diffibrilyddion**
Cynhelir Pwyllgor nos Lun, Mai 13, am 7.00 i drafod y weithgaredd o godi arian at gael diffibrilyddion yn y pentref. Y mae'r ymateb hyd yn hyn yn anhygoel o lwyddiannus a dymunir diolch i bawb sydd wedi cyfrannu ac mae'r gronfa yn dal ar agor i unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu. Mae'r cyfraniadau hyd yn hyn ymhell dros £3,000. Cost un diffibrilydd yw £1,500 a gobeithir casglu digon o arian i gael mwy nag un o gwmpas Waen a'r pentref. Gellir rhoi cyfraniadau, arian neu siec, mewn amlen i'r casglwyr lleol, y Trysorydd David Greene, Tai Croesion, neu gellir ei adael yn yr ysgol. Sieciau yn daladwy i 'Gyfeillion Ysgol Gymuned Penisarwaun'. Diolch o galon am eich cydweithrediad parod.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned** Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr oedd Carol Jones, Deiniolen ac Irfon Hughes, Waen.

Cynhaliwyd 'Disgo Pasg' nos Iau, Ebrill 11, o 6.00 yr hwyr tan 7.30. Dymunir diolch i Twm Herd am ofalu am y gerddoriaeth a diolch i chi, rieni, am gefnogi'r noson.

Cynhelir 'Miri Mai' nos Iau, Mai 23ain, yn y Neuadd Gymuned am 6.30 gyda stondinau Tombola, raffl, cŵn poeth a mabolgampau i'r gwahanol oedrannau.


**Llongyfarchiadau** Dymuna pawb yn y pentref longyfarch Pat a Leslie Larsen, Llygad yr Haul, ar ddathlu eu Priodas Ddiamwnt ar Fawrth 31ain. 60 mlynedd o atgofion melys.


**Arholiadau** Ein dymuniadau gorau i bawb ohonoch sy'n sefyll yr amrywiol arholiadau, ysgol Gynradd, Uwchradd a'r colegau.

**'Achub y Plant' yn 100 oed**
Yn dilyn y profiad arbennig o gael recordio yn Stiwdio Sain ar gyfer CD fydd yn rhan o ddarllediadau Elusen Achub y Plant yn 100 oed, mae pawb wrthi yn ymarfer ar gyfer y Cyngerdd Canmlwyddiant a gynhelir yng Nghadeirlan Bangor nos Sadwrn, Mai 18fed. Bydd plant yr Ysgol Gymuned yn cael y fraint o rannu llwyfan hefo mawrion y byd opera, sef y tenor Gwyn Hughes Jones a'i wraig Stacey Wheeler, ac yn ymuno hefo Trio i ganu cân arbennig 'Mae "na obaith' wedi ei chyfansoddi gan Annette Bryn Parri a'r geiriau gan Gwyn Parri. Mi fydd yn noson i'w chofio ac mae'r tocynnau ar gael o siopau Palas Print a Awen Menai. Tocynnau i rieni'r plant ar werth yn yr ysgol.

CHWILOTA
chwilota.wordpress.com

# Dirywiad y Ty-du, Llanberis






Daeth y gyfrol fechan hon i'm meddiant yn ddiweddar, sef 'Camrau Llwyddiant'. Fe'i hysgrifennwyd gan Anthropos, a'i chyhoeddi yn 1909, dros ddeng mlynedd ar hugain wedi marw Dewi Arfon. Ynddi mae'n cyfeirio ar gyfrol arall o waith Dewi Arfon a gasglwyd gan ei frawd, Gutyn Arfon yn 1873. Yn y llyfryn mae llun o gartref y brodyr, sef y Ty-du, Llanberis; llun wedi ei ddarlunio gan S. Maurice Jones, arlunydd dyfrlliw nid anenwog.

Mae'n ymddangos hyd yn oed yn 1901 fod y ty yn dechrau mynd a'i ben iddo. Mae'r to yn brin o lechi a thyfiant trwchus dros un corn simdde. Dyma ddisgrifiad Anthropos ohono: "Dengys yr olwg arno ddarfod iddo weled dyddiau gwell. Ond y mae gweddillion urddas yn aros yn y muriau llydain a'r simddai fawr; ac erbyn hyn, y mae'r eiddew caredig yn cuddio ei hacrwch..." Tybed ydi hi'n bosib ei ddisgrifio heddiw, dros ganrif yn ddiweddarach fel 'gweddillion urddas' ?

# Cyd-ddigwyddiad arall



Arweiniodd y chwilio am y Ty Newydd 'cywir' yn y Waunfawr fi at William Gadlys a'i gysylltiadau a dau gwmni drama cynnar yn y fro. Yn ystod y mis anfonwyd y llun hwn o Gayney Griffith-Evans i mi drwy law Mrs Dorothy Jones, Cwm y Glo. Derbyniodd y llun gan ffrind iddi o Garn Dolbenmaen. A choeliwch neu beidio, roedd Gayney Griffith (fel yr oedd bryd hynny) hefyd yn rhan o Gwmni Drama Llanberis a Chwmni Dramayddol y Waunfawr yn eu perfformiadau cyntaf.

Fe'i ganed yn y Weirglodd-ddu, Nant Peris yn 1852 ac fe'i derbyniwyd yn fyfyrwraig yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn 1878 i astudio cerddoriaeth dan yr Athro Joseph Parry. Bu'n teithio led-led Cymru gyda'i gwmni opera. Roedd yn canu rhan yr ail soprano ym mherfformiad cyntaf yr opera 'Blodwen' ym Mhafiliwn Caernarfon, yn chwarae rhan Ellen.

Priododd gydag Ifan Richard Evans, ond bu ef farw yn 1911. Treuliodd weddill ei hoes gyda gwahanol aelodau'r teulu, ond bu hi farw yn Wyrcws Caernarfon yn 1942. Hi oedd yr aelod olaf o gast gwreiddiol Cwmni Drama Llanberis 1880.

# William Gadlys Williams a chychwyn y Ddrama Gymraeg

Cafwyd chwech ymateb i gais y mis diwethaf am wybodaeth ynglyn a W.Gadlys Williams, a hynny bron cyn i'r inc gael sychu ar y copiau ddaeth o'r wasg! Ac yr oedd pedwar ohonynt yn ddisgynyddion iddo. Gyda diolch i Haydn Jones (wyr, Waunfawr), Iola Llywelyn (gor-wyres,Waunfawr) a'i brawd Glyn (gor-wyr,Deiniolen) a Bleddyn Williams (wyr, Caernarfon). Diolch hefyd i Mrs Carrie Owen, Llanrug (gwreiddiol o'r Waunfawr), a Mrs D. Roberts, Waunfawr.

Cafwyd gwybodaeth ddiddorol, ac y mae yna chwilota pellach gan aelodau'r teulu am y taid a'r hendaid.

Ond, yn anffodus, doedd gan yr un ohonynt wybodaeth am ran William Gadlys yn nyddiau cynnar y ddrama Gymraeg yn y fro – a dyna oedd fy niddordeb i. Pan ddeallais fod Bleddyn Williams yn hannu o'r teulu, credwn yn siwr mai dyna lle cafodd y genynnau actio, ac yntau wedi diddori cymaint o gynulleidfaoedd tra'n rhan o Gymdeithas y Gronyn Gwenith yng Nghapel Seilo, Caernarfon. Ond na, wyddai yntau chwaith ddim am ddawn ei daid fel actiwr! Felly, dyma'r ychydig wybodaeth sydd gen i hyd yn hyn.

Yn Eisteddfod Gadeiriol Eryri, Llanberis yn 1879 cynigiwyd decpunt o wobr am ddrama Gymraeg "yn null Shakespeare." Mr B. Evans, Llangadog, Sir Gaerfyrddin oedd yn fuddugol. Daeth i'w adnabod yn ddiweddarach fel Beriah Gwynfe Evans, awdur a newyddiadurwr a fu'n byw yng Nghaernarfon am ran helaeth o'i fywyd, ac a gladdwyd ym mynwent Llanbeblig.

Ffurfiodd pwyllgor yr eisteddfod gwmni drama, a pherfformiwyd y ddrama fuddugol – 'Owain Glyndwr' yn 1880 yn Llanberis. Dywed O. Llew Owain (Hanes y Ddrama yng Nghymru) mai "dyma'r cwmni cyntaf yng Nghymru i ymgymryd a pherfformio drama fawr a gwaith arni." Ymhlith yr actorion roedd William Gadlys Williams yn actio rhan milwr a hefyd cymeriad arall o'r enw Deio mewn tafarn.

Nid trigolion Llanberis yn unig oedd yn rhan o'r cwmni. Mae'n debyg fod llawer ohonynt yn gweithio yn Chwarel Dinorwig. Roedd William Gadlys o'r Waunfawr, T. Edward Jones (actio Owain Glyndwr) yn enedigol o Lanrug ac R.E.Jones (actio Gruffydd) yn enedigol o Langefni, sef Cyngar, y bardd a'r masnachwr a sefydlodd yn Llanberis. Ar y pryd hefyd, roedd Granvillefab (actio Syr John Scudamore) yn byw yn Llanrug, cyn mudo i'r America. Rwy'n parhau i chwilio am gyfeiriadau gweddill yr aelodau.

Ond i ddychwelyd at William Gadlys. Erbyn 1884 roedd 'cwmni dramayddol' wedi ei sefydlu yn y Waunfawr dan arweiniad John W. Thomas, Bryn Melyn, a pherfformiwyd y ddrama gantata 'Llywelyn ein Llyw Olaf' ganddynt ar nos Sadwrn olaf Hydref o'r un flwyddyn yn Ysgol y Bwrdd. Ac yr oedd William Gadlys yn rhan o'r cast, yn actio rhan Dafydd, brawd Llywelyn. Dywedwyd ar y pryd mai hwn oedd yr unig gwmni yng ngogledd Cymru i berfformio'r ddrama gantata hon (er fod dau gwmni yn y deheudir).



Dyna ddau gyntaf i William Gadlys felly. Actio ym mherfformiad cyntaf y ddrama 'Owain Glyndwr', ac actio ym mherfformiad cyntaf 'Llywelyn ein Llyw Olaf' yng ngogledd Cymru.

Gobeithiaf olrhain mwy o hanes yr actorion cynnar hyn yn ystod y misoedd i ddod, a byddwn yn ddiolchgar o dderbyn gwybodaeth a lluniau ohonynt.

# Pencerdd Alltwen – a mwy

Ymatebodd yr arbenigwr ar Gymry America – W. Arvon Roberts, Pwllheli, i'r erthygl am Bencerdd Alltwen. Gweler tudalen 6. Diolch iddo unwaith eto am fod mor barod i rannu ei arbenigedd.

Nodir mai mab Griffith Owen Griffith a'i wraig, Catherine oedd Pencerdd Alltwen. Galwai'r tad ei hun yn Rhuglew. Nis gwn a oedd yn enw barddol neu gerddorol. Mudodd y rhieni i Canada yn 1893, ac yr oeddent yn byw mewn lle o'r enw Rockland ers tua 1898. Bu'r fam farw yno yn 1906. Er hynny, dywed Humphrey Griffith yn y cofiant i Bencerdd Alltwen mai yn Granville, Efrog Newydd y mae gweddillion y rhieni wedi eu claddu. Roedd gan y rhieni o leiaf bump o blant, a'r rheini wedi eu geni yng Nghymru. Tybed a wnaeth rhai ohonynt fudo i Ganada? Ac os arhosodd rhai ar ol yng Nghymru, ble mae eu disgynyddion heddiw?

Yn Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar yn 1905 yr urddwyd Owen John Griffith yn Bencerdd Alltwen. Diddorol nodi fod eraill o fro'r "Eco" wedi eu hurddo yn yr un eisteddfod. Cafodd W. Edffrwd Pritchard, 8 Glandwr Terrace, Clwt y Bont ei urddo yn Bencerdd Deiniol; derbyniwyd Jarret Roberts, Tan y fron, Llanrug i Urdd Cerddor gyda'r enw Alawydd Ifor, a Harri Davies, Bod Eilian, Llanberis i Urdd Cerddofydd gyda'r enw Alawydd Rhonwy. Mae'r enw Jarret Roberts yn weddol gyfarwydd i mi, ond chlywais i ddim am y lleill. Felly, anfonwch wybodaeth!

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

# DEINIOLEN Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

**Gair gan y Golygydd:** Derbyniwyd newyddion am lwyddiannau plant ac ieuenctid Deiniolen o wahanol ffynonellau y mis hwn, gyda nifer helaeth o luniau amrywiol hefyd. Doedd dim posib cynnwys y cwbl heb ail-adrodd.

**Cyngerdd Goreuon yr Urdd**
Cynhaliwyd Cyngerdd y Gwanwyn nos Iau, yr 11eg Ebrill, yn neuadd Ysgol Gwaun Gynfi. Trefnwyd y noson gan Bwyllgor Eisteddfod Deiniolen ar y cyd â'r ysgol, i bobl yr ardal gael mwynhau gweld ffrwyth llafur nifer o eitemau llwyddiannus o'r ysgol gynradd ac o Ysgol Brynrefail a fu'n cystadlu yn eisteddfodau cylch a rhanbarth yr Urdd yn ddiweddar, ac i fanteisio ar yr ymdrech a'r ymarferion lu fu'n mynd ymlaen yn yr ysgol ac ar sawl aelwyd yn Neiniolen i baratoi at hynny.

Dechreuwyd y noson gyda dau Grŵp Dawnsio Gwerin yr ysgol gynradd, a mwynhawyd y wledd i'r llygad a'r glust. Roedd y gwisgoedd yn drwsiadus, y dawnsio'n gelfydd a'r offerynwyr, Ann a Bil Williams, hefyd wedi ychwanegu at naws arbennig y perfformiadau. Bydd cyfle i grŵp Blwyddyn 3 a 4 herio dawnswyr Cymru gyfan rŵan, i ymddangos ar y llwyfan mawr yng Nghaerdydd ddiwedd mis Mai. Pob lwc iddynt!

**Llwyddiant Dwbl!**
Cawsom fwynhau perfformiadau Parti Unsain a Chôr Ysgol Gwaun Gynfi wedyn, a deallir yn iawn sut roeddent mor flaenllaw yn y ras drwy'r rowndiau. Yn yr un modd gyda'r Ymgom i'r oedran cynradd – gwelsom berfformiad Parti Hari o Flwyddyn 5 a 6 yn y Cyngerdd, ac edmygwyd dawn actio a hyder anhygoel y disgyblion ifanc, a arweiniodd at sicrhau'r ail safle i'r grŵp yn Eisteddfod Rhanbarth Eryri, yn ail i, … ie, parti Lois Haf, o Flwyddyn 3 a 4 Ysgol Gwaun Gynfi a ddaeth yn gyntaf (ond ni pherfformiodd y grŵp hwn yn y Cyngerdd oherwydd absenoldeb rhai aelodau), gyda pharti o Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog, yn drydydd. Llongyfarchiadau iddynt, ac i Lowri Hughes o Ddinorwig, un o rieni'r ysgol, am roi o'i hamser i hyfforddi'r ddau grŵp buddugol drwy Eryri gyfan.

Roeddem yn ddigon ffodus i gael mwynhau unawdydd arbennig a thair offeryn-wraig ddisglair o'r ardal yn yr oedran Uwchradd hefyd. Diolch yn fawr i Erin Wyn Williams am gyflwyno'r Unawd Alaw Werin Bl 7, 8 a 9, i Elin Dafydd Evans am ei datganiad ar yr Unawd Pres Bl 7, 8 a 9 ac i'r efeilliaid Efa a Mabli Baines o Glwt y Bont o Flwyddyn 9 a fu'n cystadlu ar y Ddeuawd Offerynnol Bl 13 ac iau, y ddwy ohonynt yn chwarae'r ffliwt yn gampus, am gymryd rhan ar ein llwyfan lleol. Ni lwyddwyd i dderbyn y gwahoddiad i'r Côr, y Parti Merched, na'r Grŵp Llefaru a'r Parti Bechgyn buddugol Blwyddyn 7, 8 a 9 o Ysgol Brynrefail gymryd rhan yn y Cyngerdd, ond deallwn eu bod yn cynnwys plant o Ddeiniolen. Llongyfarchiadau i'r holl blant a phobl ifanc ar eu llwyddiant, a phob dymuniad da i bawb yng Nghaerdydd. Byddwn yn gwylio allan amdanoch ar y teledu!

**Eisin ar y Gacen**
Pa well ffordd i ddiweddu'r Cyngerdd na chael clywed llais arbennig yr hyfforddwraig, yr arweinydd a'r cerddor dawnus, Lois Eifion, bellach o Ddeiniolen, fu'n cyfeilio i bawb yn y Cyngerdd, yn canu 'Cofio dy Wyneb' a 'Calon Lân'. Eisin ar y gacen yn wir, a dangosodd y gynulleidfa ei gwerthfawrogiad cynnes iddi hi a'r holl berfformwyr. Ar ran Pwyllgor Eisteddfod Deiniolen, diolchodd Eirlys Hughes i Bennaeth yr Ysgol, Catrin Gwilym, y staff a'r hyfforddwyr am eu gwaith yn paratoi'r plant at gystadlu ac at berfformio yn y Cyngerdd, i'r gynulleidfa am gefnogi'r noson, ac am y gwobrau raffl oedd yn rhoddion gan Spar Llanberis, bwyty Spice Llanberis a Menter Fachwen – roedd yr enillwyr yn llawn dop o wyau Pasg, ac yn rhy niferus i'w henwi! Roedd y Cyngerdd yn ymfalchïo yn ein doniau lleol, ac yn nodi hanner blwyddyn i fynd tan Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen ar ei newydd wedd eleni, gan y caiff ei chynnal ar nos Wener a dydd Sadwrn y tro hwn, sef ar 25 a 26 Hydref. Roedd elw'r Cyngerdd yn mynd at Ysgol Gwaun Gynfi.

**Clwb Snwcer** Braf oedd gweld Clwb Snwcer, , yn ymddangos ar rhaglen Heno ar S4C yn ddiweddar. Braf gweld criw sy'n weithgar yn cadw'r clwb i fynd ac yn cael sylw haeddiannol am y gwaith da mae nhw yn wneud trwy rhoi cyfleoedd i bobl ifanc y pentref gael magu diddordeb yn y gamp.

**Llongyfarchiadau** i Darren Bingham, Tafarn y Wellington, ar ei lwyddiant diweddar wedi iddo gael ei ddewis i chwarae dartiau dros Gymru.(gweler y dudalen chwaraeon)

Cydymdeimlo Yn diweddar bu farw Irfon Ellis, Caernarfon. Fe'i magwyd yn Weirglodd Goch, ger Racca, a'i dad, Arthur Ellis yn wreiddiol o Rhes Fictoria, Deiniolen. Fel sawl un o'i genhedlaeth fe weithiodd yn y chwarel yn Ninorwig ac yna yn ffatri Ferodo. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at yr holl deulu.

**Newyddion gan ein Cynghorydd** Mae'n braf gallu cyfeirio at y drych newydd sydd wedi cael ei osod i gynorthwyo cerbydau i adael rhes ganol Pentref Helen yn ddiogel. Mi fydd yn gymorth mawr i adael y ffordd gyfyng yma yn ddiogel.

Braf hefyd yw gallu cadarnhau fod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi cytuno i ariannu codi cysgodfan newydd i glinic y pentref.

**Eglwys Grist** Rydym yn clywed ar y cyfryngau, yn y papurau ac yn yr Eco am gyflwr ein Haddoldai, bod angen arian ac adnoddau i atgyweirio ac i wella ansawdd ein lle o addoli.

Ers tair blynedd bellach mae'r Awdurdodau Eglwysig wedi bod yn pwyso a mesur cyflwr adeilad Eglwys Crist yma yn Neiniolen. Mae'r gaeafau dros y blynyddoedd wedi gadael ei farc ar yr adeilad, yn enwedig y rhan Orllewinol o'r adeilad.

Gobeithir clirio a thynnu i lawr yr holl blastr yn y festri a'r gegin ynghyd â wal y clochdy. Hon fydd y dasg gyntaf ac fe gymer tua dau fis, yna gadael y waliau i sychu cyn plastro. Yn allanol mae'n rhaid atgyweirio neu adnewyddu gwteri. Mae'r gwaith yma yn ddibynnol ar faint o gymorth y gellir ei dderbyn trwy geisio am grantiau.

**Y Fynwent** -Eleni eto mae Mr Berwyn Jones wedi cychwyn ar dorri gwair y fynwent, rydym yn ddiolchgar tu hwnt i Berwyn am ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol yma. Diolch hefyd i'r sawl anhysbys a fu'n atgyweirio safle y tap dŵr, ac yn rhoddi olew ar y giât!

Gan fod mwy a mwy o bobl yn cerdded ac mewn ceir yn mynd heibio i'r Eglwys a'r fynwent, maent yn crybwyll fod y safle yn edrych yn dda. Yn arbennig i chwi garedigion sydd mor hael gyda'ch rhoddion er mwyn i ni gynnal a chadw y fynwent, diolch o galon.

Os ydych yn dymuno cyfrannu bydd Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu, neu Mrs Gwen Griffith, Fron, neu unrhyw aelod o'r Eglwys yn falch o dderbyn eich cyfraniad.

**Profedigaeth** Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Paul Martin Jones, Pentre Helen. Roedd yn ddyn annwyl iawn ac fe fydd colled fawr ar ei ôl i'w deulu ac i'r pentref cyfan.

**Eglwys Crist** Daeth tyrfa deilwng i wasanaeth Sul y Pasg yn Eglwys Llandinorwig. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Canon Idris Thomas a diolchir iddo. Yr organydd oedd Eleri Bean. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Brian Price, Efa Jên Jones, Deion a Guto Jones a'r casglyddion oedd Len Jones a Darryl Williams. Roedd yr Eglwys wedi ei haddurno'n hardd gogyfer â'r Ŵyl a diolchir i bawb am eu gwaith. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd cyfle i gymdeithasu a hyfryd oedd gweld yr efeilliaid, sef Isaac ac Elspeth Tandy, yn y gwasanaeth. Derbyniodd y plant Ŵy Pasg bob un. Mae'r fynwent yn edrych yn hynod daclus a diolchir i Berwyn Jones am ei waith da. Derbynnir yn ddiolchgar unrhyw gyfraniad at Gronfa'r Fynwent.



## Gŵyl Deiniolen

Yn dilyn noson llawn cyffro unwaith eto eleni mae'r frenhines a'i llys wedi ddewis. Llongyfarchiadau mawr i -

Zara Jones - Y Frenhines
Jack Reid - Tywysog
Cadi Haf Roberts - Tywysoges
Theo Jones - Tywysog Bach
Leia Lewis - Merch y blodau

Edrychwn i gyd ymlaen i'ch gweld yn eich gwisgoedd hardd yn ystod yr ŵyl.

# *Parhad* DEINIOLEN

## Ysgol Gwaun Gynfi
## Ymlaen i'r Genedlaethol...





Llongyfarchiadau mawr i Ddawnswyr Bl3 a 4 a ddaeth yn fuddugol yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd. Ymlaen a nhw i Gaerdydd ddiwedd mis Mai i'r Eisteddfod Genedlaethol.

Llongyfarchiadau hefyd i Ddawnswyr Bl5 a 6 a ddaeth yn ail.

## Ailgylchu

Fel rhan o'n thema Bwyd , gwahoddwyd yr adran Ailgylchu Cyngor Gwynedd i sgwrsio gyda'r dosbarthiadau.
Aeth criw allan i gasglu sbwriel o gwmpas y pentref i hybu ailgylchu ac i dacluso'r pentref.
Diolch yn fawr i griw Merched y Wawr am ein helpu ac i griw Llanberis, Deiniolen a Bethel am fenthyg y ffyn casglu sbwriel.



Llongyfarchiadau i'r ddau barti Ymgom. Daeth Parti Alis yn 1af a pharti Harri yn 2il. Bydd y parti 1af yn cystadlu eto yn Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd mis Mai. Pob lwc iddynt.





## Prosiect STEM Gwyddoniaeth yn yr Amgueddfa lechi Llanberis.

Aeth criw o ddisgyblion Bl5 a 6 i fod yn rhan o brosiect Gwyddoniaeth yn yr Amgueddfa Lechi. Roedd yn gyfle gwych i ddatrys problemau ac i ddysgu o'u camgymeriadau.

**Canolfan Waunfawr, Clwb 300**

Enillwyr y Clwb am fis Mawrth oedd £30: David Wyn Jones, Dwyfor (Rhif 57); £20: nan Huws Roberts, Madryn, Caeathro (35); £10: Nelma Pritchard, 6 Croes y Waun (10).

Enillwyr mis Ebrill oedd £30: Pearl Williams, Parc (133); £20: Haydn Jones, Rhandir Mwyn (237); £10: Norman Williams, Llidiart Wen (159).

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan nos Lun, Mai 13 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan. Croeso cynnes i bawb.

**Merched y Wawr** Nos Iau, Mawrth 28, wedi i Anita ein croesawu ni i'r cyfarfod cyflwynodd i ni Cadi Iolen, Curadur Amgueddfa Lechi Llanberis, ein gwraig wadd am y noson, gan ddweud ei bod hi ei hun wedi ymweld â'r Amgueddfa gyda'i wyres fach ar achlysuron fel Groto Siôn Corn, Helfa Wyau Pasg, Haf o Lechen a Noson Calan Gaeaf a'i bod yn werth mynd yno. Roedd Cadi wedi bod â diddordeb yn Chwarel Llanberis ers yn ifanc iawn ac wedi iddi raddio o'r coleg cafodd swydd yn yr Amgueddfa a phenodwyd hi yn Gurad yno.

Lleoliad yr Amgueddfa Lechi yw y Gilfach Ddu ble'r oedd gweithdai y chwarelwyr yn trwsio a chynnal peiriannau injans stêm ac adeiladu wagenni i gario'r llechi. Soniodd Cadi am y chwarel yn cau yn 1969 a 350 o ddynion yn colli eu gwaith. Roedd chwarel Dinorwig yn un o chwareli mwyaf y byd.

Yn ystod tymor yr hydref 1969 bu Ocsiwn a gwerthwyd llawer o'r offer. Sicrhaodd Hugh Richard Jones, prif beiriannydd y chwarel, bod angen cadw rhai pethau. Yn 1972 agorwyd Amgueddfa Lechi Cymru yn y Gilfach Ddu a Hugh Richard Jones oedd y rheolwr. Roedd yr Olwyn Ddŵr fawr a pheiriannau eraill wedi eu cadw a daeth Una yno hefyd, injan stêm o chwarel Pen yr orsedd, Dyffryn Nantlle; Peiriant Cloddio Smith Radley o Chwarel Dŵr Oer, Blaenau Ffestiniog, a hefyd y côr gwyllt sy'n cario wyth person.

Garreg wrth garreg tynnwyd rhes o bedwar tŷ chwarelwyr yn Tanygrisiau i lawr a'u cludo i'w hail godi yn yr Amgueddfa, sef Tai Fron Haul. Mae tŷ rhif 1 wedi ei ddodrefnu fel y cyfnod cyn i'r chwarelwyr golli eu gwaith yn 1969. Rhif 3 Fron Haul yn cofio Tanygrisiau yn 1861 pan oedd teuluoedd mawr yn rhannu un llofft gyda blancedi yn hongian o'r nenfwd yn rhannu'r llofft. Tŷ rhif 2 yn dangos Bethesda yn 1901 pan fu Streic Chwarel y Penrhyn. Mae tŷ rhif 4 yn lle i blant a'u rhieni gael gwybodaeth a gwylio'r ffilm 'Stories in the Stones'. Hanes y tai a'r bobl a drigai ynddynt a'r broses o'u tynnu i lawr a'u hailgodi.

Mae casgliad o luniau y chwarelwyr wedi eu cadw'n ofalus a chasgliad o gelfi'r cyfnod wedi eu recordio a'u cadw. Roedd tŷ y Prif Beiriannydd yn agos i'r siop yn y prif adeilad. Mae y siop yn ddiddorol gyda anrhegion Cymreig a lluniau a llyfrau ar werth. Mae'r Amgueddfa yn lle prysur gyda ymwelwyr a disgyblion ysgol o bell ac agos yn treulio amser yn sgwrsio ac yn gwylio'r gweithwyr sy'n arddangos sgiliau y crefftwyr.

'Diwrnod gwych, cael gweld yr olwyn ddŵr, Una, yr injan stêm a pheiriannau eraill, tai chwarelwyr ac arddangosfa hollti llechi - i gyd yma i chi ryfeddu atynt a mwynhau, a'r cyfan AM DDIM.

Eleni nod Cadi a staff yr Amgueddfa yw casglu enwau ponciau chwarel Dinorwig a'u lleoli ar fap. Roedd tua 60 ohonynt pan gafodd ei chau yn 1969, 50 mlynedd yn ôl. Buasent yn falch o bob cymorth gan bobl y gymdogaeth. Meddai Cadi,'Mae na bonciau wedi eu henwi ar ôl llefydd lle roedd llechi wedi eu hallforio ac mae na joc: "gelli di gerdded o Awstralia i Abyssinia, heibio New York i Califfornia mewn ychydig funudau".

Roedd yn sgwrs ddiddorol tu hwnt. Irene ddiolchodd iddi gan ddweud y byddai hi'n bleser ei chroesawu'n ôl yn fuan. Nia a Heulwen fu'n paratoi y baned. Oherwydd ei bod yn wyliau'r Pasg ni fydd cyfarfod mis Ebrill. Bydd y cyfarfod 'Sgwrs am Gŵn Tywys' gan Buddug Jones nos Iau, Mai 23. Heulwen Huws fydd yn diolch ac Iris a Carys yn paratoi y baned a'r raffl.

Diolchodd Anita i bawb am ddod, ymddiheurodd dros y rhai oedd yn methu bod yn bresennol. Anfonodd gofion cynnes at Glenys gyda Haydn wedi dod nôl adref o'r ysbyty yn ystod y dydd, ac at Sylvia oedd wedi bod yn brysur yn ymfudo o'i chartref yn y Waun i Gaernarfon.

Yn ystod ein Cyfarfod Dydd Gŵyl Dewi fe wnaed casgliad ariannol a phenderfynwyd ei roi i Uned Gofal Arbennig y babanod yn Ysbyty Gwynedd. Aeth Heulwen ac Irene i'r ysbyty i gyflwyno'r arian i staff yr Uned Gofal. Derbyniwyd gair o ddiolch ganddynt am ein caredigrwydd tuag at yr Uned a'i anghenion.

**Dwy Awr Ddiddorol a Difyr** Dydd Sadwrn olaf o fis Mawrth bu dwy awr o amser difyr yn creu a mwynhau yn Festri y Capel gyda Mrs Susan Williams, sy'n weithwraig plant ac ieuenctid Cynllun EFE. Roedd plant a'u rhieni a chyfeillion o bob oed yn bresennol ac yn brysur yn creu addurniadau bach, yn gwrando ar stori ac yn canu. Cafwyd paned a lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan aelodau y capel. Diolchwyd i Mrs Williams am ddod atom.

Roedd Mrs Williams wedi trefnu i'n harwain yng ngwasanaeth bore Sul, Ebrill 7, ond daeth neges na fyddai gyda ni oherwydd bod y brofedigaeth drist o golli ei brawd wedi dod i'w rhan hi a'r teulu. Anfonodd Mr Tudur Pritchard gydymdeimlad dwys aelodau Capel y Waun atynt yn eu colled fawr.

**Dymuno y Gorau** Dyma ni eleni eto yn nhymor yr haf yn yr ysgolion a'r colegau. Bydd yr wythnosau nesaf yn gyfnod yr arholiadau allanol i'n pobl ifanc a disgyblion yr ysgol Gynradd. Dymunwn y gorau i bob un fydd yn sefyll yr arholiadau.

**Yr Urdd** Daeth cyfnod Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth y mudiad i ben a bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ddiwedd mis Mai. Dymunwn yn dda i Cadi Lois fydd yn cystadlu yn y cystadlaethau Dawnsio Disgo unigol, Bl 5 a 6, wedi iddi ddod yn fuddugol yn Eisteddfod Rhanbarth Eryri.

Bu cystadlu brwd yn y cystadlaethau Celf yn yr Eisteddfod Cylch. Llongyfarchiadau i Ena Cerys, Bl 3, ar ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth Argraffu, yn ail yn y gystadleuaeth Ffotograffiaeth â'r gwaith cyfres o brintiadau lliw.

Daeth Nan Grug yn gyntaf yn y gystadleuaeth Argraffu ac yn 3ydd yn y gystadleuaeth Ffotograffiaeth print lliw.

Daeth Ceiri Glyn Tuff yn 2il yn y Darluniad 2D a Daniel Boswal yn 3ydd. Daeth Cai Dafydd Jones yn ail yn y Ffotograffiaeth print lliw.

Daeth Ceiri a Cai Dafydd yn ail yn eu gwaith yn yr Eisteddfod Rhanbarth. Tipyn o gamp hogia a genod, da iawn chi.

**Pen-blwydd Arbennig** Llongyfarchiadau i Owain Lewis, Stad Bryn Golau, ar gyrraedd ei ddeunaw oed yn ystod y mis ac i Rhea Griffith, Stad Bryn Golau fu'n dathlu cyrraedd ei 21 mlwydd oed. Mae'n siŵr eich bod eich dau wedi mwynhau eich diwrnod arbennig a dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol.

Bu Mrs Beti Owen, Stad Tref Eilian, yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed a Mrs Ann Jones, Stad Glyn Afon, yn dathlu cyrraedd na beth a ddymunwn i Elfyn Griffith, Stad Bod Hyfryd, wedi iddo ymddeol o'i swydd gyda Bwrdd Dŵr Cymru wedi 40 mlynedd o wasanaeth. Mwynhewch eich ymddeoliad.

**Babanod Bach Newydd** Llongyfarchiadau i Gwen a Gareth, Gwynant, Teras Glyn Afon, ar enedigaeth ei mab bach, Hari Arthur.

Merch fach, Eldra Aur, a anwyd i Leah a Wil Williams, 7 Stad Croes y Waun. Llongyfarchiadau i chi.

Mae Nance Hughes, Stad Croes y Waun, yn hapus ei bod wedi dod yn hen nain i or-ŵyr bach, Owen Meilir. Mab i Elin Mair, ei hwyres a Gareth Roberts. Mae'r teulu bach yn byw yng Nghaernarfon.

Croeso mawr i'r rhai bach a llongyfarchiadau i'r rhieni i gyd.

**Newid Aelwyd** Wedi cartrefu yn y Waun am bron i ddeugain mlynedd mae Sylvia Prys wedi symud i fyw i Gaernarfon. Dymunwn bob hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd. Cadw gysylltiad â ni, Sylvia. Dymunwn yn dda i'r teulu sydd wedi cartrefu yn Pen y Graig.

**Sylvia Prys** Penderfyniad anodd iawn fu symud o bentref Waunfawr ar ôl bron i ddeugain mlynedd hapus iawn yma. Byddaf yn colli'r tŷ, yr ardd, y mynyddoedd ond yn fwyaf oll, y bobl. Daeth ambell storm arw iawn i'm rhan i a'r hogiau yn ystod y blynyddoedd ond drwy'r cwbl bu pobl Weun yn ffyddlon, yn garedig, yn gymwynasgar ac yn gefnogol. Allwn i ddim bod wedi dymuno cymdogion a chyfeillion gwell, Bu'r hogiau yn hapus iawn yn yr ysgol efo athrawon mor ffeind a gofalgar a ffrindiau mor dda. Nid wyf wedi symud yn bell i ffwrdd a byddaf yn siŵr o gadw mewn cysylltiad efo sawl un ohonoch. Diolch o galon i chi i gyd.

**Brysiwch Wella** Dymunwn wellhad buan i Clive Owen, Stad Tŷ Hen, wedi iddo gael anffawd ac anafu ei fraich. Yr un yw ein neges i Callum Hanks wedi iddo yntau gael anffawd ac anafu ei fraich.

**Adref o'r Ysbyty** Croeso adref o'r ysbyty i Emsul Jones, Stad Bro Waun, wedi iddi gael gofal yn Ysbyty Gwynedd.

Bu Talfryn Thomas, Treforfan a Haydn Jones, Rhandir Mwyn, hefyd yn derbyn gofal yn Ysbyty Gwynedd ond da cael dweud eu bod adref erbyn hyn ac yn teimlo'n well.

Anfonwn ein cofion hefyd at Gary Jones, Stad Tref Eilian, sydd wedi cael dod adref o'r ysbyty ac yn gwella.

Mae'n dda deall bod Steve Thomas, Stad Tref Eilian, hefyd yn gwella wedi iddo gael anffawd ar ei feic.

**Brysiwch Wella** Bu Kyle, 11 Ael y Bryn, yn Ysbyty Gwynedd wedi iddo anafu ei fraich ond mae yn well erbyn hyn. Mae Carwyn, ei dad, yn cael profion yn yr ysbyty hefyd. Hyderwn yn fawr eich bod yn gwella.

**Profedigaeth** Wedi gwaeledd trist a chas bu farw Gwendoline Rowlands yng Nghartref Gofal Maesincla. Mam annwyl i Graham, Yvonne, Martin a Gerald a mam yng nghyfraith garedig. Roedd yn nain falch a gofalus i'w wyrion a wyresau, ei gor-wyrion a'i gor-wyresau. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi yn eich profedigaeth. Cydymdeimlwn hefyd â'i chwaer, Jenifred, ei brawd yng nghyfraith a'i chwaer yng nghyfraith a'r teulu oll yn eich hiraeth.

**Cydymdeimlwn** hefyd â Siôn Emyr a'r teulu, Stad Bod Hyfryd, yn eu tristwch o golli nain a hen nain annwyl iawn iddynt yn ddiweddar, ac â Mrs Doris Roberts, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith.

**Gwasanaethau Capel y Waun am fis Mai**

5: Mr Aled Job
12: Mr Arwel Roberts, Rhuddlan
18: Parch Emyr Rowlands, Llangristiolus
26: Mr John Roberts




Cyfle i ymlacio a sgwrsio bob dydd Llun yn Neuadd Eglwys Penisarwaun rhwng 9 ac 11 y bore, - a hynny am ddim! Croeso cynnes i bawb. Trefnir gan Eglwysi St Helen, Penisarwaun a St Mihangel, Llanrug.


GERDDI mg GARDENS

GWASANAETH DYLUNIO GERDDI

Yn adnabyddus fel un o gyflwynwyr Garddio a Mwy (S4C), mae Meinir bellach wedi hyfforddi fel dylunydd gardd - cysylltwch os ydych chi'n awyddus i roi bywyd newydd i'ch gardd.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cynnal a chadw'ch gardd am bris rhesymol gan gynnwys:

TORRI GWAIR A GWRYCHOEDD
CYNNAL A CHADW LLWYBRAU A WALIAU
AILWAMPIO BORDERI

Gyda chriw sydd â phrofiad helaeth o weithio'n broffesiynol mewn gerddi ac yn y byd adeiladu, gallwch fod yn sicr y byddwch yn cael y gwasanaeth gorau.

Cysylltwch am fwy o wybodaeth!
07854 374588 post@meinirgwilym.com



RHOSTIO MOCHYN
*Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau*
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718184

CRWYDRO ER BUDD
Taith wefreiddiol
Taith 2019
Y Rocis a mordaith i Alasga
22 Mai - 6 Meh, 2019



Am fwy o fanylion ewch i crwydro.com
Os am gael taflen a mwy o wybodaeth cysylltwch â ni ar -
Ffôn – 01286 881911 (dydd)
Symudol – 07795 485081 (nos)
Ebost - crwydro@crwydro.com
Bydd y daith yn gyfyngedig i 20 teithiwr, felly cyntaf i'r felin...
www.crwydro.com

GERAINT OWEN CARPEDI
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
CARPEDI ■ TEILS ■ VINYLS
DEWIS MAWR O BATRYMAU
(01286)650552 Mob. 07712779475

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*
Sion Roberts ▶ 07759415753
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

# Disgyblion Ysgol Brynrefail yng Nghystadleuaeth Bandiau Pres Ieuenctid Prydain



Bu Band Pres Iau Gwynedd a Môn a'r Band Pres Hŷn yn llwyddiannus iawn mewn cystadlaethau ar gyfer Bandiau Pres Ieuenctid Prydain ar ddydd Sadwrn Mawrth 30ain yn Warwick. Enillodd y Band Pres Hŷn y wobr arian yn eu hadran yng nghystadleuaeth Pencampwriaeth Cenedlaethol Bandiau Pres Ieuenctid Prydain. Gwnaeth y Band Pres Iau yn ardderchog gan ddod yn BENCAMPWYR Bandiau Pres Ieuenctid Prydain!!
Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion canlynol sy'n aelodau o'r Bandiau a hefyd diolch iddynt am eu holl waith caled yn paratoi ar gyfer y gystadleuaeth ac am eu hymddygiad arbennig yn ystod yn dydd.

Ioan Ifans Bl 11 - diolch arbennig i Ioan am gystadlu hefo'r ddau fand gan gychwyn am 4:30 bore Sadwrn a dod adref tua 1:30 bore Sul!
Dyma'r disgyblion eraill oedd yn y ddau fand:

Elan Jones Bl 13
Twm Herd Bl 12
Dylan Efans Bl 11
Bedwyr Jones Bl 11
Hawys Evans Bl 11
Elis Jones Bl 10
Morgan Williams Bl 10
Mabon Roberts Bl 9
James Hayes- Bl 8
Grisial Morus Bl 8
Gwilym Evans- Bl 7

Iwan Griffiths - Bl 12
Rhydian Williams Bl 12
Osian Land Bl 11
Nanw Evans Bl 11
Gwion Roberts Bl 11
Huw Owen - Bl 10
Huw Evans Bl 10
Anedd Hughes Bl 9
Catrin Beech Bl 8
Elin Dafydd Bl 8
Twm Williams - Bl 7

# Y Daith Euraidd - Prosiect Ysgolion creadigol
# Ymchwilio i hanes y 'Royal Charter'



Bu disgyblion grwpiau Saesneg blwyddyn 8 yn gweithio gyda'r awdur a'r perfformiwr Gillian Brownson a'r artist, Kristin Luke i wella eu llythrennedd Saesneg trwy ddulliau creadigol i ysgrifennu a llafaredd.

## Llwyddiannau Eisteddfod yr Urdd 2019

Unwaith yn rhagor eleni bu nifer dda o ddisgyblion yn cystadlu'n frwd yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir. Dyma'r canlyniadau ac fel y gwelwch bydd nifer o ddisgyblion a phartion yn ymynd ymlaen yn awr i gystadlu yn y genedlaethol yng Nghaerdydd.

Unawd Bechgyn 7-9
1af - Tomos Gibson
3ydd - Osian Trefor Hughes
Unawd Bechgyn Bl 10 a dan 19 oed
2ail - Tomi Llywelyn
Deuawd Bl 10 o dan 19 oed
2ail - Tomi a Leisa
Parti Merched 7-9 - 2ail
Parti Bechgyn 7-9 – 1af
Côr SA Bl 7-9 – 2ail
Alaw Werin Unigol Bl 10 o dan 19 oed
3ydd - Leisa Gwenllian
Unawd Gitâr Bl 7-9
1af - Rhodri Roberts
Unawd Pres Bl 7-9
3ydd - Elin Dafydd Evans
Ensemble Bl 7-9
2ail - Efa, Mabli a Hazel
Unawd chwythbrennau Bl 10 o dan 19 oed
2ail - Rachel Franklin
3ydd - Nanw Llwyd
Unawd Piano Bl 10 o dan 19 oed
2ail - Huw Evans
Deuawd Offerynnol Bl 13 ac iau
1af - Rachel a Nanw
Unawd Cerdd Dant Bl 7-9
3ydd - Osian Trefor Hughes
Grŵp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl 7-9
1af – Gwallgof – Adran Bethel
Grŵp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl 10 o dan 19 oed
1af – Cythral Mewnol – Adran Bethel
Grŵp Llefaru Bl 7-9
Iaf – Parti Erin Wyn
Llefaru Unigol Bl 10 o dan 19 oed
1af - Leisa Gwenllian
Monolog Bl 10 o dan 19 oed
1af - Leisa Gwenllian

Llongyfarchiadau mawr i BAWB. Rydym yn hynod o falch o bob un sydd wedi cystadlu ac yn dymuno'r gorau i'r holl gystadleuwyr fydd yn teithio i lawr i Gaerdydd. Yn ôl yr arfer fe gynhaliodd staff yr ysgol y caffi yn Eisteddfod Sir dan bymtheg yn ffreutur Ysgol Brynrefail ar ddydd Sadwrn, Ebrill y chweched. Bydd yr elw a wnaed ar y diwrnod o werthu cacennau a phaneidiau yn mynd tuag at y gost o drefnu trafnidiaeth i lawr i Gaerdydd yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Yn ychwanegol at y cystadleuwyr buddugol uchod fydd yn cynrychioli'r ysgol yn y genedlaethol, bydd Band yr ysgol yn perfformio ar lwyfan Canolfan y Mileniwm yng nghystadleuaeth y bandiau a'r cerddorfeydd uwchradd ar nos Iau, Mai 30ain.

Hwyl fawr a phob lwc i bawb!

## Ysgoloriaethau Prifysgol Bangor



Llongyfarchiadau mawr i Aled Pritchard a Shannen Roberts ar ennill ysgoloriaethau i Brifysgol Bangor.
Enillodd Aled Wobr y Fonesig Enid Parry Ysgol y Gymraeg ac Ysgoloriaeth Teilyngdod tra bod Shannen wedi ennill Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae Aled yn bwriadu mynd astudio Cymraeg a Newyddiaduraeth yn y Brifysgol ym Mangor a Shannen yn bwriadu mynd yno i astudio Athroniaeth a Chrefydd.


# Cofnodion Carcharor Rhyfel

Mae'n ymddangos fod cryn dipyn o ddarllenwyr yr "Eco" yn chwilio hen ddogfennau a phapurau teuluol ar hyn o bryd. Dyna a wnaeth Sharon Jones, Ceunant yn ddiweddar, ac anfon copiau o nifer o ddogfennau yn adrodd hanes ei thaid, a fu'n garcharor rhyfel yn yr Eidal yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn anffodus, nid yw gofod yn caniatau cynnwys lluniau o'r holl ddogfennau a gafodd eu cadw'n ddiogel gan y teulu.

Ganwyd Nowie Jones ar y 4ydd o Fedi 1915 yn Arvonia Terrace, Llanrug, yn fab i Owen Owen Jones a'i wraig, Nell. Roedd y tad ar y pryd yn gwasanaethu gyda'r RWF, ond yn chwarelwr wrth ei alwedigaeth. Yn llefnyn ifanc, bu Nowie yn chwarae pel-droed i dim Llanrug – yr hen Llanrug Institute mae'n debyg, a oedd yn bodoli yn y 1930'au. Nowie yw'r trydydd o'r chwith yn y rhes ganol, er fod cred iddo chwarae fel gol-geidwad hefyd.



Pan dorrodd y rhyfel allan, ymunodd â'r Durham Light Infantry. Erbyn hyn roedd yn briod â Lavinia, ac yn byw ym Mhendalar, Caernarfon. Ar y 14eg o Ebrill 1943 derbyniodd ei wraig y neges ei fod 'ar goll' tra'n gwasanaethu yn y Dwyrain Canol, a hynny ers yr 22ain o Fawrth. Ar y 5ed o Fai anfonwyd i'r cartref ym Mhendalar fod Nowie Jones yn garcharor rhyfel 'yn nwylo'r Eidalwyr.' Yn ddiweddarach y cafwyd gwybod mai yn un o'r brwydrau yng ngwlad Tunisia y bu hyn.



No. DW/3/Cas/DLI Army Form B. 104—83A.
(If replying, please quote above No.)

Infantry Record Office,
York. Station.
5. 5. 1943

~~Sir or~~ Madam,

I have to inform you that a report has been received from the War Office to the effect that (No.) 4202761
(Rank) PTE. (Name) JONES. Nowie.
(Regiment) 8th. DURHAM, L.I.
is a Prisoner of War in Italian Hands.

Should any other information be received concerning him, such information will be at once communicated to you.

Instructions as to the method of communicating with Prisoners of War can be obtained at any Post Office.

I am,
~~Sir or~~ Madam,
Your obedient Servant,

Card returned
With thanks.


for Officer in charge of Records. Lieut

IMPORTANT.—Any change of your address should be immediately notified to this Office. It should also be notified, if you receive information from the soldier above, that his address has been changed.

Wt.20241/1250 500M. 8/39. KJL/8815 Gp.698/3 Forms/B.104—83A/6

Daw cerdyn post 'swyddogol' arall yn ddiweddarach (mae'r marc post a'r dyddiad yn aneglur) yn nodi "I am alright; I have not been wounded. I shall be transferred to a prisoner's camp. Only then I will be able to receive letters from you."

Mae'n amlwg iddo fedru sgwennu o leiaf ddau lythyr o'r Eidal yn ystod y ddeufis nesaf. Yn yr olaf ohonynt mae'n dweud "I am in the best of health." Ond mae'n amlwg nad oedd hynny'n wir. Ddiwedd Awst 1943 daeth y llythyr nad oedd unrhyw deulu yn ystod y rhyfel am ei dderbyn: y newyddion trist fod Nowie Jones wedi marw yn Ysbyty Militaraidd Caserta, a hynny ar y 18fed o Orffennaf "whilst a Prisoner of War in Italian hands."



No. DW3/CAS/DLI Army Form B. 104—82.
(If replying, please quote above No.)

INFANTRY Record Office,
YORK.
30th August 1943

Madam.

It is my painful duty to inform you that a report has been received from the War Office notifying the death of :—
(No.) 4202761 (Rank) Pte
(Name) JONES. Nowie
(Regiment) 1st Bn Durham Light Infantry
which occurred in Military Hospital Caserta
on the 18th July 1943.
The report is to the effect that he Died whilst a Prisoner of War in Italian hands.

I am to express the sympathy and regret of the Army Council.

I am to add that any information that may be received as to the soldier's burial will be communicated to you in due course.

I am,
Madam
Your obedient Servant,

for Officer in Charge of Records.

[76028] 30253/— 500m 9/39 M&C Ltd. 706 Forms/B.104—82/6 [P.T.O.

Roedd yn fis Chwefror 1944 ar ei wraig yn cael gwybodaeth swyddogol fod Nowie wedi ei gladdu ym mynwent y carcharorion rhyfel yn Caserta.

Ysgrifennodd Glan Rhyddallt englyn i'w goffau:

Yn arwr gŵyl ym mro'r gelyn – ef oedd
Heb fai yn ei erbyn;
Ond rhywfodd ehedodd wedyn
I ofal Duw o afael dyn.



# DINORWIG Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

**Tymor y Gwanwyn** A ninnau unwaith eto yn nhymor y gwanwyn a Sul y Blodau o'r tu ôl, braf oedd cael mynd â blodau er ein hanwyliaid a'r haul yn tywynnu, er hynny yr oedd y gwynt yn andros o oer. Buaswn yn dweud ei bod bron yn oerach nag y mae hi wedi bod drwy'r gaeaf. Braf oedd gweld Mynwent Macpela Deiniolen yn hynod o dwt a thaclus, ac yn edrych yn hynod o dlws hefo'r holl flodau oedd ar y beddi.
Er yr holl doriadau, mae Cyngor Gwynedd wedi ei wneud, maent i'w llongyfarch ar gadw'r fynwent mor dwt a thaclus. Golyga hyn lawer i'r teuluoedd a'r anwyliaid sydd yn tyrru yno o lawer ardal ar Sul y Fam a Sul y Blodau.

**Trafnidiaeth Gyhoeddus** Ers dechrau'r mis mae cwmni 'Gwynfor' o Ynys Môn wedi cael cytundeb hefo Cyngor Gwynedd ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal ac y mae amserlen newydd sydd yn rhoi tipyn mwy o fysiau i ni gael mynd a dod i Gaernarfon. Yr ydym yn wirioneddol ddiolchgar iddynt. Y gresyn yw nad oes dim ond un bws yn mynd i Fangor a llawer angen mynd a dod yno, gan mai ym Mangor mae'r ysbyty.
Rwyf yn deall yn iawn bod gan Gyngor Gwynedd broblem ar eu dwylo ac yn cydymdeimlo yn fawr â hwy, oherwydd yr holl broblemau y maent wedi eu hwynebu ers rhai misoedd bellach. Ni fu dim ond problemau efo 'Arriva' Yn amlach na pheidio nid oedd yn yn troi i fyny ar amser neu ddim yn dod o gwbl. Doedd yn ddim byd i fws tua wyth y bore beidio dod o gwbl a llawer yn disgwyl amdano i fynd i'r gwaith neu'r coleg. Y bws cyntaf o Ddeiniolen wedyn oedd un wedi deg. Fe fu iddynt drin yr ardal yn shabi iawn.
Hyd yma mae cwmni Gwynfor yn cadw amser yn wych ac y mae'r bysiau yn hynod o lân. Diolch i'r Cynghorydd Elfed Williams a Chyngor Gwynedd am y trefniant a gobeithio y bydd cydweithio da yn cymryd lle rhwng y cwmni a'r ardal.

**Eisteddfod yr Urdd** Dymuniadau gorau i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod o fro yr Eco, gan obeithio y dewch â gwobrau yn ôl i'r ardal. Cofiwch os na fu gwobr, y cystadlu sydd yn bwysig. Peidiwch â digalonni, mae yna dro nesaf a gwell lwc. Mae'r cystadlu ynddo'i hun yn help am lwyddiant yr Eisteddfod.

**Arholiadau** Mae tymor yr arholiadau yn agosau ac yr ydym fel ardal yn dymuno yn dda i bawb sydd yn gorfod sefyll yr arholiadau yma, a gobeithio am lwyddiant i chi i gyd.

**Cofion** Cofiwn yn annwyl iawn at Mrs Megan Morris yng Nghartref Plas Garnedd. Yn yr Eco nesaf gobeithiwn yn arw y cawn ei llongyfarch ar y dathliad mawr, oherwydd ar yr 11eg o Fehefin, fe fydd Mrs Morris yn 104. Oed mawr iawn ond y mae wedi gofalu erioed am fwyta yn dda. Pen-blwydd Hapus iawn i chwi. Mwynhewch eich diwrnod a phob bendith.

**Marwolaeth Tecwyn**
Yn ystod y mis diwethaf daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Mr Tecwyn Jones, Ty'n y Fawnog Uchaf gynt, yn 86 mlwydd oed. Er iddo fod yn cwyno ers peth amser daeth y diwedd yn sydyn ac yn annisgwyl.
Bu iddo symud efo'i rieni a'i frawd a'i chwaer, Eddie Wyn a Marjorie, tua 70 mlynedd yn ôl i Tyddyn Forgan, Llanddeiniolen. Yno fe anwyd ei chwaer fach, Pat. Bu iddo briodi ac fe anwyd un ferch o'r enw Jane iddynt a bu iddynt gartrefu y mhentref Cynwyd, Corwen, mewn tŷ o'r enw Pen y Bryn.
Bu i'w wraig farw beth amser yn ôl ac mae Jane yn gweithio ym mhencadlys yr heddlu. Er bod y teulu wedi gadael yr ardal ers blynyddoedd bellach maent yn dal i gadw cysylltiad â'r hen ardal. Mae Eddie, sydd yn byw ym Mhontrug, i fyny yn aml iawn ac os bydd cynhebrwng bydd yn un o'r rhai cyntaf yno bob tro. Bu imi gyfarfod â Tecwyn o gwmpas rhyw ddwy flynedd yn ôl a melys iawn oedd y sgwrs. Gresyn na chefais ei weld wedyn.
Ei ddymuniad olaf oedd cael mynd i fyny Lôn Garret, heibio yr hen gartref ac i dop y chwarel ond ni chafodd ei ddymuniad. Mae Marjorie yn byw yn Lloegr a Pat yn Bethel.
Tewyn, coffa da amdanat ac yn angof ni chei fod. Cwsg a gwyn dy fydd yng ngofal y Brenin mawr.

**Marwolaeth Eric**
Daeth y newydd trist am farwolaeth Eric yn 76 mlwydd oed yn ynysoedd y Malvinas.
Dyn dŵad i'r ardal oedd Eric a fu'n cartrefu hefo Mr a Mrs Griffith, Tŷ Coch, am beth amser cyn iddo briodi hefo Ann, Braich Poeth. Yr oedd Ann yn un o'r genod roedd Mrs Hannah Jane Williams, Braich Poeth, wedi ei fagu.
Priododd Eric efo Ann a bu i'r ddau gartrefu yn 3 Bro Elidir lle y ganwyd iddynt dri o hogiau, sef Dafydd, Alwyn a Wyn. Bu'r plant yn hynod ffyddlon yng Nghapel MC Dinorwig.
Yn ystod Rhyfel y Malvinas aeth Eric yno ac yno y bu. Er iddo golli Dafydd ei fab hynaf a'i wraig ni ddaeth adref yn ôl. Cafodd Ann salwch creulon iawn a bu yn orweddiog yn yr ysbyty am flynyddoedd. Gan bod Eric yn perthyn i mi bu iddo fod yn hynod garedig hefo fy nheulu ac yn barod i wneud cymwynas.
Mae Alwyn a Wyn wedi gwneud eu cartrefi ei hunain yn awr: Alwyn yn byw yng Nghaernarfon a Wyn Bach yn Llanfairfechan. Wyn wedi colli ei wraig ond, er i Eric fynd a'u gadael, yr oedd y ddau yn teimlo yn arw pan ddaeth y diwedd ond, fel y dywedodd Alwyn, yr oedd yn ormod o daith iddynt fynd i'w gladdu. er y buasent wedi hoffi mynd. Dad oedd o yn y diwedd. Gobeithio y bydd i'r ddau gofio y dyddiau da a gawsant hefo mam a dad.




**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

**Cyngerdd**
**EGLWYS SANT PERIS**
NANT PERIS
**Nos Sul- 5ed. Mai am 7 o'r gloch**
Gyda Côr Plant Ysgol Dolbadarn
Côr Meibion Dyffryn Peris
Stephanie Welsby
Ross Craigmile Karen Jones
Dylan, Ela a Lois Eifion
Julie Bulman Jones
• Arweinydd y Noson DAI TOMOS
Tocynnau (YN UNIG) £8.
Ffoniwch- Iola Owen 871457
YR ELW TUAG at EGLWYS NANT PERIS

**Concert**
**Saint Mary's Church Nant Peris**
SUNDAY MAY 5th. at 7pm
TICKETS (ONLY) £8. Phone- Iola Owen 871457



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

# TUDALEN YR IFANC



# CANU AM NATUR A CHARIAD, NEWID HINSAWDD A CHYFALAFIAETH

Mae Gwilym Bowen Rhys o Fethel yn hen law ar ddiddanu cynulleidfa erbyn hyn. Mae'n ddeuddeg mlynedd ers iddo ddechrau perfformio ar lwyfan efo'r Bandana, ac yn saith mlynedd ers dechrau canu gyda'i chwiorydd fel Plu. Mae bellach yn ganwr unigol llawn amser, yn gigio mewn tafarndai, clybiau, ysgolion, cymdeithasau...hyd yn oed carchardai!

Caneuon gwerin ydi sail ei set. Mae'r caneuon yn amrywio o fod yn rhai swynol ac araf i fod yn rhai gwyllt ac egnïol, ac eleni mae'n rhyddhau ei drydydd albym unigol - 'Arennig'. Fel ei albym gyntaf 'O Groth y Ddaear', mae 'Arenig' yn gymysgedd o hen ddeunydd a chyfansoddiadau gwreiddiol. Esbonia Gwilym;

"Y rheswm dwi'n deud 'deunydd' yn hytrach na 'caneuon' ydi oherwydd does bron dim un cân arno sydd ddim yn gymysgedd o rhyw fath. Ceir hen eiriau wedi'u gosod ar alawon newydd, neu'r ffordd arall rownd, a geiriau o'r 15fed ganrif wedi cymysgu efo geiriau hollol newydd. Mae'r themâu yn amrywio hefyd, gyda rhai yn son am natur a chariad a rhai eraill yn son am newid hinsawdd a chyfalafiaeth."

Mae saith cerddor yn ymddangos ar yr albym, ond crëir craidd y sŵn gan bedwar person - Gwen Màiri o'r Alban ar y delyn, Patrick Rimes o Fethesda ar y ffidil, Marit Fält o Norwy ar y Mandola, ac wrth gwrs Gwilym ei hun yn canu a chanu'r gitar, mandolin, ffidil, harmonica a cwpwl o bethau eraill.

Enillodd Gwilym y wobr am 'artist unigol gorau' yng Ngwobrau Gwerin Cymru rhai wythnosau yn ôl ac mae'n mynd i fod yn brysur dros yr Haf yn gigio a hyrwyddo ei albym. Mae'n canu yn Galeri Caernarfon ar y 1af o Fai ac yng Ngŵyl Fwyd Caernarfon ar yr 11eg.

## Mwy o fysiau i'r ŵyl fwyd




Gyda Gŵyl Fwyd Caernarfon yn tyfu pob blwyddyn, mae disgwyl i 30,000 o ymwelwyr heidio i'r dref ar Fai 11eg. Felly, os ydych chi'n bwriadu galw heibio i flasu bwydydd lleol a mwynhau'r awyrgylch, beth am ddal y bws yn lle straffaglu i ffeindio lle parcio?

Diolch i gwmni bysiau Gwynfor, bydd bysiau ychwanegol yn cael eu hamserlennu ar lwybr Llanberis - Caernarfon ar ddiwrnod yr Ŵyl. Cofiwch edrych ar wefan yr ŵyl am fwy o wybodaeth www.gwylfwydcaernarfon.cymru

Er mwyn cynnal digwyddiad llwyddiannus mae angen dros 100 o bobl ar gyfer stiwardio, dosbarthu rhaglenni, cyfeirio pobl, gwneud holiaduron, casglu sbwriel, a chasglu rhoddion mewn bwcedi. Os hoffech chi gyfrannu awr neu ddwy o'ch diwrnod i fod yn rhan o'r ŵyl Gymreig, e-bostiwch katherineowen71@yahoo.co.uk



## LLANBERIS Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

**Diolch** Fe ddymuna Prydwen, David, Iwan, Siân a'r teulu i gyd, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt ar ôl colli Melfyn yn ddiweddar. Yn sgil haelioni pawb, casglwyd swm teilwng iawn i'w rannu rhwng Meddygfa Llanberis a Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd. Diolch arbennig hefyd i Meinir am ei thrylwyredd a'i gofal ac i'r Parch Robert Townsend am ei garedigrwydd yntau.

**Diolch** a chofio: Dymuna teulu Miss Louie Pritchard ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli modryb annwyl a fu farw yn 95 mlwydd oed yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli, nos Iau, Chwefror 28. Cynhaliwyd ei hangladd yn Capel Coch ac Amlosgfa Bangor ddydd Mercher, Mawrth 13.

Hi oedd yr olaf o'i chenhedlaeth o deulu Central Garage. Yr oedd yn fodryb a hen fodryb garedig i'w theulu. Roedd yn aelod o eglwys Nant Padarn, a bu'n mynychu'r oedfaon yn ffyddlon yn Capel Coch hefyd ers i'r ddwy eglwys gydaddoli yno. Yn ifanc, fe ddechreuodd nyrsio, ond daeth adref yn fuan, i ofalu am ei mam i ddechrau, ond tros y blynyddoedd rhoddodd ofal mawr i fwy nag un o'i brodyr a chwiorydd, yn cynnwys dros chwarter canrif o ofal am ei brawd Thomas.

Yr oedd yn wraig annwyl iawn, ac nid oedd dim yn well ganddi na sgwrs a chwmni ffrindiau a theulu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi i'r holl ofal ddod i ben, cafodd fwy o ryddid. Roedd yn mwynhau dod i'r Gymdeithas Undebol a'r boreau coffi a'r ffeiriau codi arian yn y capel, a'r Te Bach a'i debyg yn y pentref. Roedd wrth ei bodd yn mynd am dro a siopa gyda chyfeillion.

Diolch yn fawr iawn i'r ffrindiau ardderchog a fu'n gwmni gwerthfawr iddi'r blynyddoedd diwethaf hyn, ac yn arbennig am eu ffyddlondeb iddi yng nghartrefi Nyrsio Penisarwaun a Cherrig yr Afon dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Diolch hefyd wrth gwrs am y gofal da a thyner a gafodd gan staff y ddau gartref.

## Gwasanaethau Capel Coch

**Mai**

5ed: 10yb Parch Gwynfor Williams
12fed: 10yb a 5yh Y Gweinidog
19eg: 10yb Mr Andrew Settatree
26ain 10.30yb Oedfa Deulu

**Mehefin**

2ail: 10yb Mr John Roberts
9fed 10yb a 5yh Y Gweinidog
16eg: 10yb Parch Charles Wyn Jones
23ain: 10.30yb Oedfa Deulu
30ain: 10yb Parch Eifion Wyn Williams

Gwasanaethau Jerusalem

**Mai**

5ed: 2yp Parch Harri Parri
12fed: Dim Gwasanaeth
19eg: 2yp Mr Eirfryn Davies
26ain: Dim Gwasanaeth

**Mehefin**

2ail: 2yp Parch Gwyndaf Jones

## CWM Y GLO

**Undeb y Mamau**

Cyfarfu'r aelodau yn festri St Mair bnawn Mawrth 19eg o fis Mawrth. Dechreuwyd y cyfarfod gyda gweddi Undeb y Mamau. Cafwyd munud tawel i gofio am aelod ffyddlon Mrs Jenny Salisbury Jones oedd wedi ein gadael yn ddiweddar, a chafwyd gweddi gan Auriel.


Derbyniwyd ymddiheuriada oddi wrth Pat, Jean, Joyce, Hilda ac Iris. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Chwefror, a thrafodwyd rhai materion gan Pauline.

Anfonwyd cyfarchion penblwydd i Mrs Enid Taylor oedd wedi dathlu ei phenblwydd yn 99 oed yn ddiweddar. Cafwyd amser i brynu oddi ar y bwrdd gwerthu. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Caroline, Pauline,Marjorie a Dorothy, a diolchwyd iddynt gan Carys. Enillwyd y raffl gan Auriel.

Terfynwyd y cyfarfod drwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg.


SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr



GWAITH COFFAOL
LLANRUG
Ffôn Gwaith
(01286) 672898
Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethy Yr Holl Ardal
Ffoniwch ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

# Hwn a gefais yn gyfaill… John Hugh Hughes 10/09/32 – 26/02/19

*Glyder, Ffordd Capel Coch. Llanberis*



Nid hyd blynyddoedd sydd yn creu cyfeillgarwch – ond dyfnder dealltwriaeth… felly efo John a mi. O'r wythdegau ymlaen, fel dau bennaeth ysgolion cynradd, byddem yn taro ar ein gilydd – yn enwedig wedi'r oedfa yng Nghapel Coch – ar fy hald.

Gwyddwn o'r adeg hynny ei fod o'n hen deip iawn – wedi ei eni a'i fagu yn Rhos Isa', Rhostryfan, ac yn dyner ac annwyl fel unig blentyn yno wedi ei fwydo – neu ei socian yng ngwerthoedd gwerth chweil cefn gwlad – parch at bobl a bywyd a Duw ei hun tu cefn i'r cyfan! Mewn cartre felly y cafodd John ei fagu – yn rhwbio sgwydde efo pobl amlwg ym myd adrodd a cherdd dant – ac yn derbyn pregethwyr ar y Sul am ginio!

Roedd yn dri person yn reddfol – athro, siaradwr cyhoeddus – a Chymro. Mesmereiddiodd fi sawl awr efo'i straeon o'r cyfnod…

Daeth "Cyfnod ymddeoliad" â ni yn agos at ein gilydd – Y siop Goed Cyn Codi Cŵn Caer oedd man ein seiat. Byddai'r pynciau trafod fel y dymunwn hwy, ond yn cael eu ebychu efo "Helo Mr Hughes" – bob tro y canai cloch y siop. Mr Hughes gan bawb – a Mr Pritchard, neu Mrs Jones oedd ei gyfarchiad a'i ateb… hen werthoedd a barhaodd hyd dydd ei arwyl. Datblygodd y seiadau hynny yn Synod a Sasiwn brynhawn Sadwrn wnâi yn Tan y Clogwyn – neu wedyn yng nghlydfan eu cartref newydd Glyder, pan âi Mat, 'Y Maen Spring', i weld ei chwaer i'r dre a gadael brechdanau shank o Wavells iddo fo a mi!

Yn ystod y cyfnod hwn daeth "jig-so" ei fywyd yn fwy amlwg. Ysgol Ramadeg 'Dre' – Brylcream Boy yr RAF – Y Coleg Normal… ac ym mhob man stori yn ymwneud â'i Gymreictod mewn sefyllfaoedd rhyfedd. Straeon da o Lerpwl. Mi aeth o Fangor wedi colli ei dad ac yn barod i gychwyn gyrfa. Hiraeth am Gymru a chael swydd yn Llanfairfechan – yn eithriad o athro, (mae gennyf dyst cyfaill arall o hyn!) ac yn y blynyddoedd blodeuog ac yntau'n byw adra efo'i fam weddw – gwelodd

Lewyrch haul yn t'wynnu ar gysgod
a gwenithen y genethod"

…Bu Mattie ac yntau am dros drigain mlynedd yn briod, yn rhieni i Carys a Bet roeddynt wedi mopio yn gall arnynt… ac erbyn hyn John wedi cael Pennaeth Ysgol Penmachno! Datblygodd y talentau naturiol: Yr Athro a'i weledigaeth, y Pregethwr a'i argymhelliad, y Pwyllgorddyn a'i ddoethineb – ei ddyn bro a'i araethyddiaeth a'i bersonoliaeth – a chafodd amser hefyd i dyddyna! fo a'i loi!

Yno ceisiodd am, a chael, Pennaeth Ysgol Dolbadarn – dod â'r holl sgiliau o'r dyffryn amaethyddol i fro'r chwareli – ac ymdaflu i'w gyfrifoldeb newydd – ond gadael y gwartheg stôrs ar ôl! Defnyddiodd eto yr un diddordebau – ac ennill ei blwy "Mr Hughes"; a rhoi ei stamp ar ysgol a chapel y fro – a sawl pwyllgor. Roedd yn edmygydd mawr o Bob Pengwaith – soniodd wrthyf cymaint yr oedd wedi ei ddysgu ganddo – a cheisiodd roi yn ôl yn ei gefnogaeth fel ysgrifennydd cysact Plas (Cartre) Pengwaith.

Ymlaciai, weithiau, wrth fynd i weld y Darans ar bnawn Sadwrn, a byddai wrth ei fodd yn cymysgu (a sgwrsio efo'r bys bachog yn pwysleisio) yng Nghlwb Eryri.

Cymerodd hyn oll eu toll ar gorffyn bywiog sensitif… ni fuasai neb (ond Mat a'r genod) yn gwybod fod dim o'i le – ond deuai hwrdd o iselder drosto nes ei lethu – bron! Cyfnodau cas. Tystiaf hefyd fod ganddo feddwl y byd o'i ddoctor – Robin Parry – a dywedai yn aml wrthyf "nid mynd ar gonfeor belt ydi mynd i'r syrjari, wsti! yr oeddwn yn byw a bod ym Mron Ceris erbyn hyn – efo dwy law chwith pan elai rhywbeth o'i le… "Gad o efo mi" oedd gorchymyn John… dwi'n nabod y feri un neith y job i ti – ac ro'dd o'n ddisgybl yn 'r ysgol! Dileit mawr John Huw oedd nid yn unig yr ysgolheigion lwyddodd o gyfnod ei stiwardiaeth, ond y rhai dyfodd i fod yn bersonoliaethau crwn cryf efo crefft yn eu dwylo a diwrnod gonest o waith yn eu bodolaeth! ac yn cyfrannu i gymdeithas! Adwaenaf un ddaeth ataf ar argymhelliad John Huw – a chaf y pleser mwyaf yn gwrando arno yn dweud fel y cai wŷs i Glyder i wneud job awr a droi allan yn job ddiwrnod oherwydd y straeon, yr holi, y paneidiau te a'r… croeso bonheddig!

Rŵan, mae wedi mynd at ei wobr, braint oedd cael dweud gair yn y 'cnebrwn mawr' ym Mangor. Brain fu'r blynyddoedd gwib a'r cyfeillgarwch mynwesol… cadwaf y profiad yng nghist y cof.

Dewisodd John adnodau o Lyfr Job i roi ar daflen yr arwyl y gofalwyd yn dyner amdani dan wasanaeth Y Parch John Pritchard:

"Yr Arglwydd a roddodd
Yr Arglwydd a ddygodd ymaith
Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd."

Ychwanegaf hyn:

**John Huw… fy ffrind…**

Cofnod o'i gyfnod fu'r gŵr – un â dawn
un doeth – cyn addysgwr…
i'r Tŷ, a'i deulu yn dŵr,
Un ei rawd a'i Waredwr.'

Diolch John, Closs

J2O
Gwasanaeth Gwres a Plymio
Gas Safe Register
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

AVW Advanced Vehicle Workshop
Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche
Bosch Service
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.
Which? Trusted trader
01286 673559
MOT Testing Station
Car Service
For everything your car needs.
Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

**Marwolaeth**

Dymuna teulu y diweddar Emyr Jones ddiolch o galon i bawb am eu geiriau caredig a'r gefnogaeth a roddwyd iddynt yn dilyn ei farwolaeth yn ddiweddar. Bu'r misoedd diwethaf yn rhai anodd iawn i ni fel teulu, ond bu cefnogaeth teulu, ffrindiau a chymdogion yn gysur mawr i ni.

Diolch yn arbennig i Staff Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon Y Felinheli, am y gofal tyner ac urddasol a gafodd Emyr yn ystod ei ddyddiau diwethaf.

Diolch hefyd i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth, ac i Gwmni E.W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr ar ddiwrnod yr angladd.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi eich cyfraniadau hael o dros £500 tuag at gymdeithas MS Gogledd Cymru er cof am Emyr.

Dymuniad y teulu hefyd ydy cynnwys y deyrnged a roddwyd iddo gen i yn ei angladd.

# TEYRNGED I EMYR

Ganwyd Emyr ar yr 22ain o Fedi 1949 yn blentyn cyntaf i Nowi Maes Llwyn ac Appy Blaen Nant. Bu dyddiad ei eni yn ychydig o siom i fy mam a Nain Blaen Nant a deud y gwir gan ei fod i gyrraedd ar y 18fed o Fedi, sef diwrnod Ffair Nant – diwrnod o gryn bwysigrwydd i bob teulu o Nant Peris. Ond dyna fo, fe ddaeth Emyr fel daethom i arfer iddo, efo'i agenda ei hun.

Ei enw llawn oedd William Emyr Jones. William ar ôl brawd fy mam, Wil, a fu farw yn ŵr ieuanc 19eg oed. Ond fel Emyr neu Em bach y'i gelwid.

Fe achosodd dipyn o drafferth i'w fam yn ei fynediad i'r hen fyd yma, ond mi dyfodd yn fachgen cryf ac anturus dal ofal tyner ein rhieni.

Dw i'n defnyddio'r gair anturus oherwydd trwy gydol ei blentyndod ac ymhellach, roedd bywyd yn un antur a heriau mawr iddo. Cofiaf fy mam yn sôn am un o'r anrhegion Nadolig cynnar a gafodd. Bu fy nhad wrthi am nosweithiau yn creu berfa bren iddo gan fod Emyr wrth ei fodd yn casglu baw a cherrig mân yn yr ardd gefn. Y diwrnod cyntaf yr aeth allan i chwarae efo'r ferfa, fe ddaeth o hyd i'r garreg fwyaf a'r drymaf y gallai ei chario a'i thaflu i mewn i'r ferfa. Aeth y garreg yn syth drwy waelod y ferfa gan achosi twll mawr yn ei gwaelod. A dyna am wn i oedd diwedd y ferfa!

Ei libart yn y dyddiau cynnar hynny oedd Llainwen Uchaf. Yno efo Ronnie a Ken Caerfran ac Eurwyn Griffiths a llu o blant eraill y daeth yn Gowboi ac yn Indiad ynghanol y coed bach ac roedd pob un ohonynt yn arwyr yn eu ffordd eu hunain.

Yna pan ddes i i'r byd roedd rhaid symud i dŷ chydig yn fwy ym Mod Arthur. Yno y parhaodd yr antur ar Graig Fach, Graig Fawr, Graig Moxen a choed doctor. Daeth yn Robin Hood, yn Lone Ranger, yn David Crocket ac yn Darzan. Creodd fwa a saethau o'r coed, slings (ffon dafl) ac adeiladodd dryciau o hen ddarnau o bren a hen olwynion pram. Clymwyd rhaffau o goed i greu trapîs a chlywyd cri fel Tarzan wrth iddynt swingio o goeden i goeden.

Roedd yn hoff iawn o fyd natur yn y cyfnod hwnnw hefyd a byddai byth a beunydd yn dod ar draws rhyw aderyn wedi brifo ei adain neu rhyw ddraenog oedd angen gofal a deuai a hwy adre i geisio eu gwella. Un bore Llun, fel oedd y drefn yr adeg honno, gorchwyl fwya'r dydd oedd golchi dillad. Wrth wagio pocedi trowsus Emyr, oedd bob amser yn llawn o sgriws, hoelion a llinynnau, tynnodd fy mam hances boced allan ac yno ym mhlygiadau'r hances oedd neidr ddefaid a achubodd o rywle ac yn amlwg wedi anghofio amdani. Gallwch ddychmygu y sioc a gafodd fy mam. Mi roedd yna dipyn o ddeud y drefn pan ddaeth adref o'r ysgol y diwrnod hwnnw.

Un o'r anturiaethau mwyaf yn 1963 iddo oedd pan rewodd Llyn Padarn yn gorn am wythnosau. Doeddan ni ddim yn gweld Emyr o fore gwyn tan nos. Byddai allan yno yn sleidio, yn chwarae ac yn reidio ei feic. Rown i'n ysu am gael bod yn rhan o'r antur yma ond doedd fy mam ddim yn fodlon gadael i mi ymuno yn y chwarae gan nad oeddwn ond yn chwech oed ar y pryd. Roedd na hen swnian ac yn y diwedd, gyda siars nad oedd Emyr i ollwng fy llaw ac nad o'n i ond i gerdded ar gyrion y llyn, mi ges fynd yn llaw Emyr a Ronnie Caerfran. Wrth gwrs, fe groeson ni'r llyn o un ochr i'r llall. Roedd fy arwyr wedi gwireddu fy mreuddwyd.

Byddai fy rhieni yn hoff iawn o fynd â ni am dro gan ddysgu i ni hanesion ein hardal. Cawsom ein trwytho mewn enwau tyddynnod a ffermydd, enwau coed, planhigion, blodau, anifeiliaid ac adar ein cynefin. Cerddem filltiroedd a byddai Emyr wedi rhedeg i ddringo rhyw graig neu goeden neu i chwilio am nythod adar. Byddai fy nhad byth a beunydd yn galw 'Cym bwyll, Emyr,' neu 'Pwylla, Hogyn,' ac felly y dysgais yn go sydyn y gair 'pwyll' gan ei gysylltu efo 'mrawd er na wyddai sut i ymarfer y weithred honno. Treuliai ei hafau yn nofio ym mhyllau yr Hafodydd i fyny am Pwll Morwyn ac yn y Llyn. Yr her flynyddol i'r hogiau oedd medru nofio ar draws y llyn ac, wrth gwrs, mi fentrodd i ymateb i'r her honno. Roedd yn falch iawn o gael cyhoeddi wrth fwrdd y Swper Chwarel i fod yn un o'r rhai oedd wedi medru nofio ar draws y llyn.

Bu llawer o anturiaethau yn ystod ei blentyndod. Un o'r rhai mwyaf brawychus dybiwn i oedd ei fod wedi cerdded o amgylch ymyl tŵr Castell Dolbadarn. Gweithred a achosodd gryn hunlle i fy rhieni pan glywsant. I fi, roedd fy arwr wedi bod yn ofnadwy o ddewr ac rown i mor falch ohono.

Wrth dyfu i fyny dangosodd ddiddordeb mawr mewn ffermio defaid. Casglodd lond llyfr o nodau clustiau defaid ffermydd yr ardal. Treuliai hafau efo Mot ein ci yn helpu allan ar y ffermydd lleol ac roedd ei fryd ar un amser i fynd i Goleg Glynllifon i ddilyn cwrs amaethyddiaeth. Ond dilyn llwybr ei gariad cyntaf a wnaeth, sef celf, a dechrau ar yrfa bensaerniol efo cwmni Ap Thomas ym Mangor. Mynychodd yr hen goleg technegol un diwrnod yr wythnos a chyda'r nosau gan ennill digon o gymwysterau i gael mynediad i gwrs gradd yn Ysgol Bensaerniol Prifysgol Caerdydd.

Wedi gorffen ei radd daeth yr awydd arno i fentro ymhellach a theithio a wnaeth i weithio i'r Dwyrain Canol, y Dwyrain Pell ac Awstralia ar brosiectau newydd. Mae'n rhaid dweud i'w deulu, sef Glenys, Llŷr. Esyllt, Rhian a Dafydd aberthu cryn dipyn er mwyn iddo ddatblygu ei yrfa a pharhau i geisio'r man gwyn man draw.

Wedi cyfnod o deithio ac anturio fe ddaeth y newyddion ei fod yn dioddef o'r cyflwr MS a oedd yn ei gyfyngu rhag dilyn ei freuddwydion.

Wrth i'r amser fynd yn ei flaen ac wrth i'r hen gyflwr creulon ei atal rhag parhau â hyd yn oed gweithgareddau bywyd bob dydd, bodlonodd ar aros gartref yng nghwmni Megan ym Mhenisarwaun.

Yn y diwedd fe aeth y salwch a'r triniaethau yn drech nag o. A phan roddodd i fyny'r ysbryd gallem weld ei fod yn barod i ildio I ni, ei deulu agosaf, a welodd greulondeb dioddefaint ei flynyddoedd olaf, ein ffynhonnell o nerth yn ein hiraeth ydi'r atgofion hapus amdano cyn i'w iechyd dorri. Yn fwy na dim, llawenydd ei fagwraeth ar odre'r mynyddoedd a'r mwynhad a brofodd yng nghwmni anwyliaid. Pryd bynnag y byddwn yn codi ein golygon at lethrau Eryri, mi fydd Emyr yn dal yno yn ein calonnau, yn fythol ifanc.

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## *Cyngor Llanberis*

COFNODION CYFARFOD MIS MAWRTH 2019:
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher y 13eg o Fawrth am 7.00 y.h.

1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:
Ward Padarn: Olwen Gwilym, Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Bethan Holding, Cyng. Kevin Morris Jones, Helen Sharp,
Ward Peris: Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
Ymddiheuriadau: Nicola Brown, Gwilym Evans, Iwan Harding, Heather Lyn Jones, Trystan Thomas.

2 DATGAN BUDDIANT:
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan wahanol benawdau.

3 CADARNHAU COFNODION:
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 13eg o Chwefror, 2019 fel rhai cywir .

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:
1. Toiledau a Parcio:
Rhoddodd y Clerc amlinelliad o gynnwys cyfarfod a drefnwyd gyda 4 o swyddogion Cyngor Gwynedd (CG) a'r cyngor hwn yn Y Ganolfan brynhawn Mercher, y 6ed o Fawrth. Cafwyd trafodaeth adeiladol ar dderbyn incwm o feysydd parcio CG i gynnal a chadw'r tri toiled ar agor am 12 mis y flwyddyn. Cytunwyd y byddai CG yn rhoi ychwanegiad ar y pris parcio ac y byddai hwnnw, llai unrhyw gost gweinyddol, yn dod i'r Cyngor hwn er mwyn i'r Cyngor gyfrannu tuag at gost cynnal y toiledau. Maes o law bydd maes parcio'r Glyn yn dod yn faes parcio lle bydd rhaid talu. Yn sgil hynny holwyd tybed a allai trigolion lleol gael tocyn tymor, ac addawodd swyddogion CG ystyried hynny. Wedyn daw cyfraniad o'r maes hwnnw ynghyd â'r ddau ger y ffordd osgoi a maes parcio Dolbadarn ger Pont y Bala a byddai hynny yn mynd tuag at gadw'r toiledau ar agor drwy'r flwyddyn. Efallai y bydd peth newid yn ffioedd MP Dolbadarn er mwyn cysoni'r pris â meysydd parcio mewn mannau eraill yn y sir, ac fe allai hynny hefyd olygu peth oedi.
Soniwyd hefyd fel yr oedd un neu ddau o gynghorau lleol yn cael ymwelwyr/defnyddwyr i gyfrannu'n wirfoddol wrth ddefnyddio'r toiled a bod hwnnw yn rhywbeth i'w ystyried.
Yn y cyfarfod gofynnwyd a fyddai'r Cyngor hwn yn ystyried cyfrannau eleni tuag at gost y toiledau. Adroddwyd y byddai'r cais yn cael ei ystyried.
2. Y Fynwent:
Adroddwyd y byddai darn arall o'r wal derfyn wedi ei chwblhau erbyn diwedd y mis a diwedd y flwyddyn ariannol.
3. Dŵr:
Soniwyd eto am lifogydd ger Gardda Bach yn y Nant, bod tyllau hefyd yn y ffordd ar ôl llifogydd diweddar a bod dail wedi cau nifer o gwterydd. Addawodd KMJ fynd ar ôl CG i lanhau cwterydd a llenwi tyllau.

5 MATERION ERAILL:
1. Defaid:
Adroddwyd bod nifer o ddefaid wedi bod o gwmpas. Roedd amheuaeth fod rhywrai wedi gadael giatiau'n agored. Dywedwyd fod rhai wedi baeddu Cae Chwarae Blaen Ddôl a holwyd a oedd terfynau Dôl y Goeden yn gyfan.
2. Toiledau:
Penderfynwyd i gyfrannu £4,000 fel ewyllys da tuag at gadw'r toiledau ar agor.
3. Digwyddiadau:
Holwyd a oedd modd cael rhestr o ddigwyddiadau mawr a oedd i'w cynnal yn y pentref dros yr haf.

6 GOHEBIAETH:
1. CG - Lôn Las Peris:
Cafwyd gwybodaeth fod CG wedi derbyn cefnogaeth ariannol i wella ansawdd y llwybr uchod. Bydd ar gau am gyfnod i wneud y gwaith a bydd ardal y Pontŵn yn cael ei wella. Gobeithir cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Mawrth. Croesawyd y datblygiad
2. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn - Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio:
Derbyniwyd y rhai ar gyfer Ail-adeiladu Tai a Throsi Adeiladau yng Nghefn Gwlad ac yn ogystal Ymrwymiadau Cynllunio.
3. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE):
Derbyniwyd nodyn yn dweud fod Cynllun Datblygu Lleol Eryri wedi ei fabwysiadu.
4. Meic Parry, Pwllheli:
Derbyniwyd llythyr oddi wrth un o gynghorwyr tref Pwllheli yn nodi fod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn bwriadu canoli holl wasanaeth fasgiwlar brys Ysbyty Gwynedd yn Ysbyty Glan Clwyd – yn lle 'yr uned benigamp enwog a llwyddiannus' sy'n bodoli ym Mangor eisoes! Dywedodd ei fod yn credu mai dyma'r tro cyntaf i unrhyw wasanaeth brys gael ei dynnu o Ysbyty Gwynedd a bod hwn yn gynsail peryglus. Mae'n apelio am gefnogaeth. Ar sail ei gysylltiadau meddygol addawodd y Cadeirydd lythyru â Bwrdd BC i apelio am gadw'r gwasanaeth ym Mangor.

7 CYNLLUNIO:
Cyngor Gwynedd
• C19/0023/15/LL - newid defnydd anecs i uned wyliau - 3 Mur Mawr, Llanberis - pryderu fod y newid defnydd yn golygu troi yr anecs yn fusnes er mwyn osgoi talu treth.
• NP3/15/228A - maes parcio gorlifo tymhorol (i fwy na 250 o geir) rhwng 1af o Fai a 30ain o Fedi mewn unrhyw flwyddyn (Ail Gais) - Tir ger Maes Parcio APCE, Nantperis.
Fel o'r blaen, cefnogir y cais hwn yn frwd.

8. GRANTIAU:
Derbyniwyd nifer o geisiadau am gymorth ariannol ar ôl hysbysebu y byddai arian eto ar gael eleni.
Rhannwyd fel a ganlyn:
Cymdeithas Undebol Llanberis: £200.00
Ras yr Wyddfa (Plant) £250.00
Clwb Pêl-droed Llanberis: £400.00
Geidiaid a Brownis ag ati: £300.00
Grŵp Datblygu Llanberis £250.00
Eisteddfod Genedlaethol Cymru: £100.00
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd: £100.00
Cylch Meithrin Llanberis a Nant: £600.00
Eco'r Wyddfa: £600.00
Côr Meibion Dyffryn Peris: £150.00
Eglwys Sant Peris [Cronfa'r To]: £1,000.00

9. LLWYBRAU A'R FYNWENT:
Adroddwyd fod giât Coed Doctor yn hongian.

10. ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL:
Adroddwyd fod y Grŵp Datblygu wedi cyfarfod yn ddiweddar, a'u bod yn anfon eu diolch i'r Cyngor am y Goleuadau a'r Goeden Nadolig.


HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD
CWÔT DI DA
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd. LLANRUG, Caernarfon LL55 4AG
Ebost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o Gyfarfod y 5ed Fawrth 201
Derbyniwyd Cofnodion Cyfarfod 5ed Chwefror 2019 fel rhai cywir.
Materion o'r cofnodion
Lloches Bws Penisarwaun – Derbyniwyd llythyr o Gyngor Gwynedd yn ymateb i'n cais am osod llwybr ar draws y gwair ger y gysgodfan o gyfeiriad LLys y Gwynt a Bryn Eglwys ym Mhenisarwaun. Mae'n edrych yn debyg fod hyn yn bosib, ond bydd rhaid disgwyl i gael asesiad gan beiriannydd yn yr wythnosau nesaf.
Goleuadau Fflachio ger Ysgol Bethel – Yn dilyn ein cŵyn i Cyngor Gwynedd fod y goleuadau ddim yn gweithio, mae Cyngor Gwynedd yn y broses o'u harolygu.
Mainc ger Cae Metta – Sawl misoedd yn ôl bellach, bu i'r fainc yma gael ei tharo a'i malu, ac ni wyddom beth oedd wedi digwydd tan yn ddiweddar. Mae'n ymddangos fod yno ddwy lori o ddau gwahanol gwmni wedi bod yn danfon i'r ardal a'r ddwy wedi cyrraedd gyda'u gilydd, a bod un wedi taro'r fainc. Gan na allwn fod yn sicr o bwy sydd yn gyfrifol, penderfynwyd ysgrifennu i'r cwmni yswiriant yn datgan yr hyn yr ydym yn wybod, gan obeithio cawn osod fainc arall yno, Hefyd esboniwyd fod y fainc yn cael ei defnyddio fel arwydd man troi i Lôn Cae Metta, gan nad oes arwydd ar y lôn yn nodi hyn. Penderfynwyd i'r clerc yrru cais i Cyngor Gwynedd am arwydd ar y lôn.
Gohebiaeth a materion eraill
Rhybudd Cyfyngiadau Parcio – Mae'n bosib bydd llinellau melyn dwbwl arfaethedig ar Stryd Wesla, Rhiwlas ger yr Hen Eglwys.
Cae'r Foel, Dinorwig – Tynnwyd sylw, trwy lythyr, fod datblygiadau yn cael eu gwneud i'r eiddo sydd yn groes i'r cais cynllunio a ganiatawyd gan Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd i'r clerc gysylltu a adran cynllunio gyda'n pryderon, ac ymateb i'r llythyr.
Deiniolen – Mae cwyno mawr eto ynglyn a baw ci yn yr ardal. Dywedodd y Cynghorydd Elfed Williams ei fod yn disgwyl mwy o arwyddion, ac am gysylltu i geisio cael bagiau ar bolion.
Penisarwaun – Mae cwyno mawr ynglyn a'r gwaith sydd wedi ei wneud ar dai yr henoed, Llys y Gwynt a Bryntirion. Nid yw'r gwaith wedi ei gwbwlhau i safon o gwbwl, ac yr oedd sawl un yn cwyno fod y gweithwy,r nad oedd yn lleol, ddim yn gyfeillgar o gwbwl.
Tŷ Mawr Cottages – Mae dŵr yn dal i sefyll ar y lôn ger y tai. Yna mae pryder am y gwaith neu'r stâd ac adeiladau sydd ar y tir. Y Clerc i gysylltu a priffyrdd ac adran gorfodaeth Cynllunio ynglyn a'r pryderon.
Biniau Halen – Mae'r Cyngor Cymuned wedi cytuno i dalu am halen yn y biniau halen, er mwyn galluogi pobl i'w defnyddio i glirio y lonydd er mwyn mynd i'w gwaith.
Am ein bod gyda cytundeb gyda Cyngor Gwynedd, Clerc Y Cyngor Cymuned yn unig sydd a'r hawl i archebu halen. Felly, yn dilyn tywydd garw ddechrau'r flwyddyn, bu iddi sicrhau fod yna halen ar gael a llenwi y biniau. Nid ydym wedi cael achos i'w ddefnyddio yn dilyn cael eu llenwi, ond mae yno ar gyfer tywydd o'r fath eto. Er hynny, mae yn ymddangos fod sawl bin yn wag, ac mae cynghorwyr pentrefi yn cadw cofnod, ynghyd a chyngor Gwynedd. Mae sawl un wedi nodi fod yr halen yn cael ei ddefnyddio ar dreif tai, yn hytrach nac ar y lonydd yn unig. Mae cost aruthrol i'r halen yma, gan fod yna 42 o focsys halen yn ardal Cyngor Llanddeiniolen, I lenwi unwaith y flwyddyn yn unig yn costio £2700. Felly y cais gan Y Cyngor Cymuned yw defnyddiwch yn ofalus, ond pan mae wir angen, ac ar y lonydd yn unig.

ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### Cyngor Cymuned Waunfawr

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 09.01.2019 AM 7.15 YR HWYR, YN FESTRI CAPEL Y WAUN, WAUNFAWR.
Presennol – Cadi Jones (Cadeirydd), Edgar Owen, Liz Daniel, Delyth Jones, Iwan Davies, Erddin Llwyd, Shoned Rees Griffith (cofnodi)
Ymddiheuriadau – Sali Burns, Menna Jones
Datganiad Buddiant - Dim
Derbyn Cofnodion 28.11.2018 – Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod yn rhai cywir.
Materion yn codi o'r Cofnodion -
Materion Caeathro
1. Ffordd Osgoi Bontnewydd –Cychwyn ar y gwaith mis Chwefror 2019.
2. Mainc Caeathro – Gwaith peintio y fainc i'w wneud yn fuan.
3. Hen ffordd Caeathro i Bontnewydd – Mater rhwng Cyngor Gwynedd a Dŵr Cymru
4. Hysbysfwrdd Caeathro - Cymdeithas Cae Chwarae am drefn y gwaith i'w atgyweirio.
5.Troedffordd o Caeathro i Gaernarfon - yn dilyn e-bost gan Clwb Llwybrau, Cyng EO a Sian Gwenllian wedi ysgrifennu at Llywodraeth Cymru.
6. Troedffordd ger yr Hen Siop - i dderbyn sylw yn fuan gan Cyngor Gwynedd.
Materion Waunfawr
1. Biniau Baw Ci – Wedi eu gosod, un newydd wrth yr safle bws ger yr Hen Bost, ar y groesffordd rhwng Ael y Bryn a Dol Erddi ac yn Groeslon Uchaf.
2. Tacluso Pentref – Plant yr ysgol wedi bod o amgylch y Ganolfan yn codi sbwriel, ond siomedig iawn bod rhywun wedi dympio sbwriel yno eto. Wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd.
3. Les tir tu ôl i'r Ganolfan – Mewn trafodaethau. Cae aml dywydd – Mewn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd i gymryd drosodd y cae yn amodol bod grantiau ar gael i'w adnewyddu.
4. Arwyddion cyflymder (fflachio) – I'w drafod ymhellach
5. Cyflymder traffig drwy'r pentref –Monitor i gael ei osod er mwyn monitro cyflymder traffig drwy'r pentref. Wedi derbyn cwynion yn ddiweddar ynglŷn â nifer y ceir sy'n parcio ar hyd y ffordd yn y pentref. Llinell wen i gael ei gosod o flaen y fynedfa i Plas Bod Hyfryd a Fferm Bod Hyfryd, Cyng EO i gysylltu â Swyddog o Gyngor Gwynedd i drafod ymhellach.
6. Gwefan y Cyngor – angen rhoi mwy o wybodaeth ar y wefan newydd.
Gerddi Bach – Grŵp Cynefin yn dod i'n cyfarfod nesaf i drafod ymhellach.
Safle Glyn Rhonwy –Dim mwy i'w adrodd ar hyn o bryd.
Adroddiadau
a) Lloches Bws - Bin newydd wedi ei osod
b) Y Fynwent - Edrych i brynu darn o dir ychwanegol ar gyfer y dyfodol.
c) Llwybrau Cyhoeddus – Angen sylw i'r llwybr rhif 23.
ch) Y Ganolfan- Cyfarfod blynyddol i'w gynnal yn fuan.
Materion Cynllunio
Dyddiad
Cofrestru Bwriad LleoliadRhif Cais Sylwadau
20.12.2018 Estyniad i greu tŷ bach ar gyfer y cyhoedd
Modurdy Gwalia,
Caeathro C18/1146/26/LL Dim gwrthwynebiad
20.12.2018 Estyniad modurdy dwbl ac estyniad gwrtil domestig Llwyn Celyn, Caeathro C18/1145/26/LL
Dim gwrthwynebiad
Archwiliad Blynyddol - wedi derbyn yr adroddiad.
Materion Eraill – Swyddfa Bost yn agor yn garej Caeathro.
Cyngor Gwynedd - ymgynghoriad ar Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd.
Dyddiad cyfarfod nesaf – 03/04/2019 yn Festri Caeathro, trafod Grantiau/Rhoddion a Mantolen 12 mis.

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## *Cyngor Cymuned Llanrug*

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar 19fed o Fawrth 2019.

Nodwyd fod y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror wedi penderfynu ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn mynegi pryder am nifer o broblemau angen eu datrys. Hyd yma, doedd yr un o'r eitemau wedi eu gwneud.

Penderfynwyd i gysylltu eto gyda Cyngor Gwynedd i ofyn am ddatrysiad brys i'r cwynion ac anfon copi i'r Cynghorydd Charles Jones

Eglwys Llanrug.

Derbyniwyd adroddiad ar y sefyllfa ddiweddara parthed Eglwys Llanrug gan y Parch Robert Townsend.

Adroddwyd fod yr Eglwys yn cynnal eu gwasanaethau nawr yn y Sefydliad Coffa, Llanrug a fod y trefniant yma yn gweithio yn dda iawn.

Eglurodd fod cyfrifoldeb am yr adeilad ar hyn y bryd yn parhau gyda'r ardal leol ond ar ôl mynd drwy'r drefn ffurfiol o gau'r Eglwys, bydd y cyfrifoldeb yn trosglwyddo i Gaerdydd. Eglurodd ymhellach fod cofebion ar gyfer coffau y milwyr a gollwyd yn y ddau ryfel byd yn yr Eglwys a bod angen ystyried lleoliad newydd i rheini. Mae cyfrifoldeb am y fynwent yn aros gyda'r Plwyf lleol ond fod sawl opsiwn i ystyried ar gyfer y dyfodol a byddai'r Eglwys yn cyd-weithio gyda'r Cyngor Cymuned wrth ymchwilio i'r gwahanol opsiynau. Gwnaeth sawl aelod godi'r pwynt os byddai'r Cyngor Cymuned yn cymryd drosodd cyfrifoldeb, yna byddai rhaid ei chodi i safon a ddisgwylir gan y Cyngor. Eglurodd y Parchedig Robert Townsend mai dim ond tair gwaith y flwyddyn roedd y fynwent yn cael ei thorri ar hyn o bryd ac eglurodd mai cyfrifoldeb am yr adeilad yn unig oedd gan Gaerdydd a bod y fynwent a'r wal yn gyfrifoldeb i'r Plwyf lleol.

Pwysleisiwyd gan yr aelodau y pwysigrwydd o atgyweirio'r wal ar fyrder oherwydd ei chyflwr. Dywedodd y Parchedig Robert Townsend y byddai'n anfon ebost i'r Cyngor gyda diweddariad a byddai'n fodlon dod i gyfarfod mis Mai o'r Cyngor.

Cae chwarae Nant y Glyn

Adroddwyd fod hysbyseb wedi mynd allan ar gyfer tendr i drwsio neu adnewyddu ffens y cae chwarae. Roedd yr hysbyseb am y dendr wedi ei roi ar wefan y Cyngor, ar ein hysbysfyrddau ac ar wefan gymdeithasol 'Next Door'. Yn anffodus doedd dim ymholiad wedi dod i law. Penderfynwyd cysylltu a'n contractwyr arferol i holi am bris i wneud y gwaith.

Gwrthwynebu bwriad Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i gau adran argyfwng gwasanaeth fasciwlar yn Ysbyty Gwynedd.

Adroddwyd fod y Cyngor wedi derbyn cais gan y Cynghorydd Mike Parry o Gyngor Tref Pwllheli i ofyn am gefnogaeth y Cyngor i wrthwynebu cau'r adran a'i symud i Ysbyty Glan Clwyd. Penderfynwyd cefnogi ei ymgyrch

Gwrthwynebu claddu gwastraff niwclear yn eu ardal

Penderfynwyd i gysylltu a Jill Evans MEP yn cefnogi ei chais yn gwrthwynebu'r syniad o gladdu gwastraff niwclear oddi fewn i'r gymuned.

Ysgol Gynradd Cwm y Glo.

Adroddwyd fod y rhybudd statudol i gau'r ysgol wedi'i roi ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i gau'r ysgol.

Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

Cyllideb a Trethi

Penderfynodd Cyngor gwynedd sefydlu cyllideb o £248,013,890 ar gyfer 2019/20, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £176,551,790 a £71,462,100 o'r Dreth Cyngor, sy'n gynnydd o 5.8% ar y dreth.

Canolfannau Iaith

Roedd y Cabinet wedi cynllunio i wneud arbediad o oddeutu £96 mil drwy ad-drefnu'r gwasanaeth. Gofynnwyd y Cyngor iddynt ail ystyried, a sicrhau fod ddim dirywiad yn y gwasanaeth

Fan tu allan i'r cae chware yn Cwm y Glo

Adroddwyd fod fan wedi ei pharcio am fisoedd tu allan i'r cae chware heb dreth arni. Hefyd roedd rhywun wedi bod yn ysgrifennu ar draws un o arwyddion yr heddlu sydd ar giât y cae chware. Canmolwyd y PCSO lleol, Nia Roberts am ymateb mor brydlon a threfnu i'r fan gael ei symud a chael arwydd newydd yn lle yr un gafodd ei falurio.

Bryn Teg

Rhai cwynion wedi eu derbyn eto. Ymddengys fod Rheolwyr y safle wedi newid eto, ac nad oedd cyfathrebu wedi bod rhwng y rheolwyr newydd a'r cyn reolwyr. Maent wedi ymrwymo i gyfathrebu yn well o hyn ymlaen.

Cyffredinol

Dim newydd pellach ar y cynlluniau i atal llifogydd.

Llwybr Pontrug i Llanrug - y diweddaraf yw fod ceisiadau am grant yn cael ei wneud a'u bod yn ei gyplysu hefo llwybr trwodd i Gaernarfon ond fod mwy o waith na'r disgwyl oherwydd bydd angen prynu tir hefyd. Mae gwaith yn mynd ymlaen gan y Cyngor Sir i uwchraddio y llwybr rhwng Llanberis a Penllyn trwy osod tarmac ar ei hyd.

Adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones

Hafan Elan

Adroddwyd ei fod wedi cyfarfod a swyddogion o Gartrefi Cymunedol Gwynedd, ynghyd a thenantiaid Hafan Elan i leisio pryderon y trigolion am ddiffyg llefydd parcio ac i ofyn a fyddai'n bosib greu mannau parcio ychwanegol. Dywedodd un o reolwyr CCG y byddent yn ystyried hyn a chafwyd addewid y byddai'r tenantiaid yn cael eu diweddaru o unrhyw ddatblygiadau.

Cais gan Mr Martin Kressman o Gwm y Glo i'r Cyngor Cymuned wneud gweithgaredd i gofnodi 150 o flynyddoedd ers y ffrwydrad yng Nghwm y Glo.

Penderfynwyd i gysylltu a Mr Kressman i'w hysbysu o benderfyniad y Cyngor i beidio cynnal unrhyw weithgaredd fel arddangosfa tan gwyllt gofnodi'r ffrwydrad ac ei hysbysu fod Menter Fachwen yn trefnu taith gerdded i nodi'r digwyddiad.

Cais gan Mr Dave Rayner i osod banc ailgylchu tecstilau ar gyfer elusen SCOPE yn ardal Llanrug.

Penderfynwyd i gysylltu a Mr Rayner i'w hysbysu mai penderfyniad y Cyngor oedd fod digon o fanciau tecstilau yn Llanrug a Cwm y Glo ar hyn o bryd.

Cynllun aelodau ifanc ar y Cyngor


Adroddwyd nad oedd aelodau ieuenctid oedd ar y Cyngor wedi mynychu ers tipyn a fod eu tymor wedi dod i ben. Penderfynwyd i barhau gyda'r cynllun ac i symud ymlaen a gwneud y trefniadau priodol i apwyntio dau arall.

Cais Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais i wneud estyniadau, newidiadau a chodi sied / modurdy newydd yn Minafon, Ceunant.

Cynllun Grantiau gan Gyngor Gwynedd – symud ymlaen a prosiectau

Adroddwyd fod y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod Swyddog o Gyngor Gwynedd sydd wedi apwyntio i helpu Cynghorau Cymuned geisio am grantiau. Nodwyd fod yr aelodau wedi cael cynnig i ddod a syniadau ymlaen a fod rhai eisoes wedi eu derbyn.




FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy
www.fframia.com

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

# Ar ben arall i'r lein






Yr unig beth o bwys hyd yn hyn yw fod Dywarchen wedi cael ei stoc cyntaf o frithyll yr enfys, rhai gwerth eu cael hefyd, i fyny i ddau bwys. 'Roeddynt yn sicr o fod yn bysgod arbennig oherwydd fe'u rhoddwyd yn y llyn ar ddiwrnod fy mhen-blwydd, sef 15ed Ebrill. Mi feddyliais roi rhyw anrheg bach i mi fy hun drwy daflu pluen i'w temtio, ond 'roedd tonnau ar y llyn fel y môr mawr, a'r hin yn ddigon i'm hebrwng at y llety agosaf. Felly bydd yn rhaid i'r hen badell ddisgwyl ychydig eto cyn cael ei chynhesu. Mae rhyw arolwg fod y tywydd yn troi am y gorau ac felly mae gobaith y bydd tipyn o ffrio cyn diwedd y mis.

Mae criw y ddeorfa wedi bod wrthi yn ddygn yn rhoi'r cychod allan ac maent yn sgleinio fel swllt oherwydd bod peiriant golchi dan bwysau newydd ar waith, ond araf ydi pethau'n cychwyn eleni, a heddiw (18 Ebrill) wrth roi'r adroddiad yma at ei gilydd dydw i ddim wedi gweld yr un wennol, a dyna beth anghyffredin. Fel y gallwch ddychmygu rwy'n cael galwadau a negeseuon dros y we o wahanol lefydd yn holi sut mae'r 'sgota. Rai dyddiau yn ôl cefais alwad o Stornoway yn yr Hebredis gan un oedd yn dod i ddathlu cyrraedd oed yr addewid. Be oedd o eisiau wneud? Wel, cael diwrnod o 'sgota ar Dywarchen. Eglurais ei bod braidd yn gynamserol gan nad oedd y llyn yn cael ei stocio tan 15ed Ebrill a hefyd bod y wennol heb ddangos ei hun yma eto. Roedd digonedd wedi cyrraedd gogledd yr Alban, oedd ei ateb! Ond er hyn, doed a ddel i Dywarchen yr aeth. Dydw i heb glywed dim ganddo wedyn, Efallai ei fod wedi rhewi ar y glannau yn rhywle.

Beth bynnag, ar y 15ed daeth y stoc cyntaf o ddeorfa Trawsfynydd, stocio yw'r sbardun i gael y criw lleol allan. Gobeithio'n wir na ddaw neb ar draws yr hen Sgotyn wedi rhewi yn gorcyn!

Un bach arall ar y tywydd dryslyd yma. Bron y ddyddiol o ddechrau Ebrill byddaf yn taro golwg ar Ben Llyn i edrych ydi'r minnow's bach, fel yr adnabyddi'r nhw, yn dangos eu hunain. Wythnos gyntaf o'r mis y gwelir nhw fel arfer, ond eleni does dim golwg ohonynt. Pam medda chi, fydda i yn chwilio amdanynt, dyma gefais fy nysgu ddegawdau yn ôl. Pan fydd y pysgod bach yma yn dangos bydd helfa go dda i'w chael wrth eu pysgota. Sut mae gwneud hyn? – Wel, rhaid dal rhyw ychydig drwy roi bara mewn hen botel Frandi, un wag, wrth gwrs, gyda thwll wedi ei wneud yn ei gwaelod. Ei rhoi hi yn y dŵr a disgwyl i'r pysgod bach nofio i mewn, yna ei thynnu allan y sydyn a'i rhoi mewn cymysgedd gwan o ddŵr halen a fformalin, mae hyn yn eu piclo am rhai misoedd. Ond eu defnyddio yn ystod Ebrill yw'r gorau. Eu tynnu tu ôl i'r cwch yn araf gyda ychydig o bwysau yn ôl ac ymlaen dros Ben Llyn. Y pwysau fyddai yn cael ei ddefnyddio gan yr hen griw oedd nytan ddur o'r chwarel. Erbyn heddiw dwi'n un o'r hen griw, ond pwysau pwrpasol o fy ngwneuthuriad fy hun dwi'n ddefnyddio, modern iawn yn de, ond 'roedd yr hen, hen hogiau yn dal llawer mwy.

Mae eisiau cadw diddordeb yn yr hen bethau 'ma, ond mi fydda i'n teimlo yn aml ein bod ni fel Cymry yn araf iawn yn hybu a defnyddio peth o'n cefndir at bwrpas heddiw.

Mae'r criw 'na o dros Glawdd Offa i'w gweld tipyn mwy llwyddiannus na ni ar y trywydd yma. Mae rhyw elfen o gwmpas rhai yn y lle yma mai'r ffordd mae nhw yn ei gweld hi yw ceisio gwrthwynebu neu wyrdroi neu dynnu i lawr bob llwyddiant – mi ddof i at hyn cyn y diwedd. Felly at yr hybu 'ma. Rwyf, ers blynyddoedd lawer, yn derbyn y cylchgrawn 'Trout & Salmon' sef efengyl misol pysgotwyr ynysoedd Prydain a llawer o Ewrop. Mi fydda i hefyd yn cyfrannu yn fisol ynddo ar sut mae pethau pysgodfaol yn y gornel yma o Gymru. Fodd bynnag, yn y rhifyn diweddaraf o'r T&S mae adroddiad ar sut mae rhai o sêr y byd teledu a digrifwyr poblogaidd wedi dod at ei gilydd i gynhyrchu llyfr sain o lyfr enwog 'alar the Salmon'gan Henry Williamson. Bydd elw o'r gwerthiant yn cael ei roi fel rhodd i elusen 'Blwyddyn Ryngwladol yr Eog'. Pam tybed na fuasai rhywbeth fel hyn yn cael ei efelychu yma yng Nghymru? Oes na rywun tybed yn fodlon gwneud rhywbeth tebyg gyda llyfr arbennig Brenin y Teifi gan Gwynfil Rees. Bu'r stori yma yn fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno yn 1963 dan feirniadaeth Dr. Eirwen Gwynn. Wrth gwrs, buasai elw'r gwerthiant yn cael ei ddefnyddio at ddatblygu cynllun Torgoch i Ysgolion Dyffryn Peris.

Dwi di cyfeirio digon at yr ymchwiliad cyhoeddus yn y Drenewydd. Mae'r arolygydd wedi hysbysu y bydd yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar 15ed Mai. Cawn weld be a ddaw yn y rhifyn nesaf.

Mae pethau yn newid yn gyson yn tydi? Rwyf wedi cyfeirio ar ddechrau'r adroddiad fod y 'sgota yn araf ond, y diwrnod canlynol, cyn pwyso'r botwm i anfon y stwff at y Golygydd, mi es am dro unwaith eto i Ben Llyn i weld a oedd rhywbeth yn mynd ymlaen. Fel yr oeddwn yn cyrraedd roedd dau aelod yn dod ag un o'r cychod i mewn i'r lanfa, a rhaid oedd cael sgwrs, wrth gwrs. Ond, yn well na sgwrs roeddynt wedi cael bore da gyda dau frithyll i'w cadw, a mwy na hynny roeddynt wedi bod yn dal sîls y gog. Mae rhain y sîls mawr tua troedfedd o hyd. Dyma'r rhai cyntaf imi glywed iddynt ddod i'r bluen ers blynyddoedd lawer. Dywedodd un o'r hen giperiaid wrthyf fod rhai â'u magwraeth yn yr Afon Las, Nant Peris. Os yw rhain yn eu holau dyma arwydd pendant arall fod y dyfroedd yn glanhau.

Cyfeiriaf yn ôl at y sylwad bod rhai yn mwynhau gwrthwynebu llwyddiant – wel mae hon werth ei chlywed. Roedd cwch 'sgota wedi dod i mewn i gei Caernarfon gyda helfa arbennig o grancod. Cytunodd y capten werthu dau i ddau o ymwelwyr oedd ar y cei, a dyma fo yn eu rhoi mewn bwced a phocedu'r arian. Roedd y ddau ymwelwr yn edrych reit syn ar y bwced, a dyma un yn gofyn a oedd yn bosib cael caead arni rhag i'r crancod ddringo allan. Dywedodd y capten,

"Na, mae popeth yn iawn, crancod Caernarfon a Dyffryn Seiont ydynt. Munud wnaiff un ddringo i'r top, mi wnaiff y llall ei dynnu i lawr." Da de!

Huw Price Hughes

# Un funud fach ...

## COFIWCH GOFIO GOVE

Gall fod yn rhy hwyr erbyn cyhoeddi'r rhifyn hwn o'r Eco. Ond heno, nos Lun y Pasg, mentraf gynnig cyngor i'r bonheddwyr Gove a Rees-Mogg. Wn i ddim pa gymwysterau sydd gennyf dros wneud hynny. Nid wyf yn arbenigwr o fath yn y byd; ond gan mai Michael Gove a fynnodd fod 'pobl y wlad hon wedi cael llond bol ar arbenigwyr', ddylai hynny ddim bod yn ormod o rwystr.

Yn sicr, nid wyf yn arbenigwr ar wleidyddiaeth Iwerddon na Sri Lanka. Ond fe'm tristawyd gan ddigwyddiadau ar y naill ynys a'r llall dros y Pasg. Nos Iau Cablyd, lladdwyd gohebydd ifanc, Lyra McKee, yng nghanol terfysg ar strydoedd Creggan yn ninas Derry. A bore Sul y Pasg, lladdwyd dros 300 o bobl ac anafwyd oddeutu 500 mewn eglwysi a gwestai yn Sri Lanka. Mae'r 'IRA Newydd' wedi 'ymddiheuro' am ladd Lyra McKee. Nid yw'n gwbl sicr ar hyn o bryd pwy oedd yn gyfrifol am y lladdfa yn Sri Lanka.

Mae hanes trist y brwydro yng Ngogledd Iwerddon dros dri degawd, o ddiwedd y Chwedegau hyd at 'Gytundeb Gwener y Groglith' yn 1998, yn weddol gyfarwydd i ni. Mae hanes Sri Lanka'n fwy dieithr. O bosibl y cofiwn i'r wlad fod dan ryfel cartref am fwy na chwarter canrif, o 1983 hyd 2009. Ychydig ohonom mae'n debyg a fyddai'n honni ein bod yn deall holl gymhlethdod y gwrthdaro na'r heddwch ar yr un o'r ddwy ynys. Ond yr hyn a ddangosodd cyfnod y Pasg hwn yw mai pethau bregus iawn ar adegau yw heddwch a llonyddwch. Gweddïwn dros deulu a chyfeillion Lyra McKee yn eu profedigaeth, a thros bobl Derry yn eu tristwch a'u hofn a'u dicter. Gweddïwn dros deuluoedd a adawyd i alaru yn Sri Lanka, a thros bobl y wlad honno yn eu dychryn a'u poen a'u dicter hwythau. Gweddïwn na fydd y digwyddiadau hyn, yn y naill wlad na'r llall, yn esgor ar ragor o dywallt gwaed. Gweddïwn am ddoethineb i wleidyddion ac arweinwyr o bob math yn y ddwy wlad wrth iddynt ymateb i'r digwyddiadau hyn.

A gweddïwn hefyd dros Mr Gove a Mr Rees-Mogg a'u cyfeillion a fu hyd yma mor ddifater ynglŷn ag Iwerddon a'i phobl yng nghanol yr holl ddadlau ynghylch Brexit. Mae heddwch yn llawer mwy bregus nag y byddai neb ohonom eisiau ei gyfaddef, yn Sri Lanka, yn Iwerddon ac ym mhob man arall o ran hynny yn ein byd amherffaith a syrthiedig ni. O'r herwydd, onid yw pob cytundeb a sefydliad sy'n cyfrannu at gadw heddwch yn haeddu eu diogelu a'u gwarchod? Gweddïwn y gwêl pleidwyr eithafol a phenboeth Brexit beryglon gwneud unrhyw beth sy'n amharu ar Gytundeb Gwener y Groglith trwy fynnu ymwahanu'n anghyfrifol oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd y mae diogelu heddwch yn un o gonglfeini ei fodolaeth. Gweddïwn y caiff y gwleidyddion hyn ddoethineb a dewrder i roi heibio'r ynfydrwydd peryglus. Yn eich gweddïau heddiw felly, os nad yw'n rhy hwyr i wneud hynny, cofiwch gofio Gove a'i gyfeillion.

JOHN PRITCHARD

## Pigion Byd Natur

### *Cloddilyn Cythreulig o Ddiddorol*



Ffosil/ffosyl, (lluosog: ffosiliau) ydyw cloddilyn/ lluos. cloddilynau. Gweddillion olion creaduriaid a phlanhigion o'r cyn-oesau ydynt. Miliynau ar filiynau o flynyddoedd yn ôl byddai mwynau yn y pridd o gymorth garw i gywasgu, ac yn sgil hynny, fe geid greu cerrig ag ynddynt weddillion bodau meirwon.

Amonid, o gryn maint, ydyw'r gigantes. Fe'i ceir yn y creigiau sy'n siroedd Dorset a Wilt, Lloegr. Perthyn cerrig Portland i ddechrau cynnar yr Oes Jiwrasig hyd ddiwedd y Cyfnod Cretasaidd, sef 251-65.5 o flynyddoedd yn ôl. Credai rhai o'r gweithwyr yn chwarel Ynys Portland mai seirff môr a llyswennod ydoedd y gloddilynau-mawrion a thorchog hyn, a'u bod yn byw'n eigion y môr, a thybid eu bod yn greaduriaid rheibus ac yn dra ymladdgar. Hy! dychymyg rhonc; rhan o lên gwerin welwch chi ydoedd hyn i gyd! Doedd wahaniaeth os mai bychan neu fawr ran eu maint, ydoedd yr amonidau gigantes, daethpwyd yn lled-gynnar, ran cyfnod hanesyddol, i'r casgliad mai wedi colli eu pennau roeddynt tra'n byw ynghanol y moroedd! Doedd angen esbonio damaid yn fwy! Canlyniadau achos ac effaith ydoedd y cyfan ym meddylfryd rhen fyd! Brathu pennau ei gilydd!

Ni cheid benglog, mwy na llygaid a cheg, yn agos i'r hyn a ganfyddwyd! Ond nid llyswennod nag ychwaith seirff mohonynt. Na'n wir! Molwsgiaid oeddynt, hefo teimlyddion/tentaclau, y gellid eu cuddio'n hwylus ddigon oddi mewn i'w cregyn. Unwaith roedd y creadur yn marw, pydrai'r teimlyddion, ond nid felly y cregyn, a ffurfiodd yn loddilynau. Bu i rai o'r trigolion ym Mhortland ddal ar gyfle a mynd ati i werthu gloddilynau amonid hefo ychwanegiadau! Ie, pâr o lygaid wedi eu cerfio ar grothau'r creaduriaid, gan eu galw'n bennau (gwaith arlunwyr lleol!). Dyma'r cerrig nadredd, cerrig llyswennod, seirff môr, fel y cawsant eu galw. Hyn i gyd, er mwyn ennyn sylw, creu syndod a difyrrwch, ac ennyn sylw prynwyr! Busnes ydyw busnes, elw ydyw elw.

D.G.

SPAR
Y Storfa Spar Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost
Llun - Sadwrn 6:30am - 9 pm, Sul 8am - 9pm



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL Snowdonia

# Sefydliad y Merched





Roedd cyfarfod mis Mawrth yn gyfle i ddathlu Gŵyl Ddewi. Trefnwyd bwffe arbennig gan Margaret a Shirley yn y Vaynol Arms, Nant Peris. Ar derfyn y noson heb yn wybod, fel y dengys y llun, cawsom ein diddanu gan Dafydd Iwan. Ein diolch mawr am yr oll o'r trefniadau ardderchog.
Yn ystod yr wythnosau diwethaf trefnwyd gweithgaredd o Wau Noddedig. Aeth nifer o'r aelodau i'r afael i wau sgwariau a chreu blancedi amryliw. Mae'r lluniau yn dangos eu cyflwyno gan aelodau'r gangen i Blas Pengwaith a llawenydd y trigolion o'u derbyn.
Yng nghyfarfod mis Ebrill, croesawyd Anita Long i blith yr aelodau. Cafwyd arddangosfa ganddi o drefnu basged fechan o flodau ar gyfer y Pasg. Tasg pawb yn dilyn oedd creu eu trefniant personol eu hunain. Diolch i Anita am ei chyflwyniad.

## Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfaon arbennig

Gwasanaethwyd gyda neges fendithiol ar gyfer oedfa Sul y Palmwydd gan y Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon. Mynegwyd cydymdeimlad yr aelodau â theulu y diweddar Irfon Ellis, Caernarfon, a fu'n cyd-addoli yn yr oedfaon a chyfrannu i'r gwasanaethau ar nifer o achlysuron yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gwasanaethwyd yn yr angladd yng Nghapel y Rhos gan y Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson, a'r organyddes oedd Lowri Prys Roberts.

Nos Lun, Ebrill 15fed, mynychodd nifer o'r aelodau gyfarfod arbennig ym Merea Newydd, Bangor. Roedd hwn yn gyfle unigryw i gyfarfod a chlywed Côr Mizoram o Synod yr Eglwys Bresbyteraidd yn Ngogledd Ddwyrain India oedd ar daith drwy Gymru.

Roedd diolchgarwch y cantorion a'u cymdeithion i'r cenhadon cynnar a'r gweithwyr diweddar fu yn eu plith yn neilltuol, a dylanwad y cenhadon hynny drwy amryfal gyfryngau wedi parhau i ddatblygu uwchlaw dirnadaeth ym maes addysg ac iechyd gyda'r eglwysi erbyn hyn, â'u haelodaeth yn y miloedd. Braint ac ysbrydoliaeth yn wir oedd cael ymuno fel cynulleidfa â'r côr i ganu rhai o'r emynau Cymraeg a drysorwyd dros y blynyddoedd gan yr eglwysi ar y Maes Cenhadol.

Dathlwyd Sul y Pasg mewn oedfa dan arweiniad Y Parch Gwenda Richards, Caernarfon. Roedd ei neges amserol wedi ei seilio ar un o weithiau yr arlunydd o'r Swistir, Eugene Burnand. Derbyniodd pawb oedd yn bresennol gopi o'r portread arbennig sy'n darlunio'n gelfydd adwaith Pedr ac Ioan yn dilyn y neges ddaeth i'w clyw am yr Atgyfodiad. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

### Oedfaon Mai

5 am 5 :Parch Marcus Wyn Robinson - Gweinidog

12 am 5: Parch Cath Williams, Caernarfon

19 am 5: Oedfa Cymorth Cristnogol

26 am 2: Parch Olwen Williams, Tudweiliog

# Chwaraeon

## WELIS 'di BALE?

Wel dyna gwestiwn ofynwyd ganwaith yn Ysgol Brynrefail dechrau'r tymor yma rwyn siwr. Ie, Bale. Gareth Bale. Yn lle? Madrid. Yn lle yn Madrid? Ar y maes ymarfer. Yn y Barnabeu? Dros gyfnod gwyliau'r Pasg roedd trip wedi ei drefnu o'r ysgol i ddinas Madrid. Diddorol. Rhywbeth i edrych ymlaen iddo. O na. I rai o'r disgyblion profiad i'w drysori. I'r rhai oedd yn aelodau o dîm pêl-droed yr ysgol oedd ar y daith, fe drefnwyd sesiwn ymarfer i'r bechgyn ar gyfleusterau ymarfer clwb Real Madrid. Am brofiad.

## DIWEDD TYMOR

Ie, mae tymor pêl-droed arall lleol yn dod i ben. Ar brydiau roedd Llanrug yn ymddangos eu bod a charfan i herio am y brig. Yn anffodus, cafwyd ambell i gyfnod siomedig yn ystod y tymor. Roedd yr anghysondeb yn amlwg mewn rhai gemau cwpan ble nad oedd y tân arferol i'w deimlo. Collwyd rhai gemau cynghrair ar Eithin Duon ble y disgwylwyd gwell. I gyrraedd y brig – fel mewn tymhorau cynt – roedd rhaid troi Eithin Duon yn gaer ddi-gyfaddawd ble na rwygwyd y mur.

Rhyw aros yn eu hunfan unwaith eto wnaeth Llanberis a Waunfawr. Bron nad yw eu safle yn y gynghrair wedi symud fawr dros y tymhorau diweddar.

A fydd Llanberis yn cario ymlaen i ddatblygu eu carfan ieuanc. Rhyfeddol ar ddiwedd tymor anghyson yn eu gemau olaf wele nhw yn cael 4 pwynt allan o 6 yn erbyn yr hen elyn LLanrug, a churo Bodedern un o geiliogod dandis yr ynys.

Arhoswn bellach i weld beth fydd tynged ein clybiau lleol pan fydd cynlluniau yr FAW yn fwy eglur.

## TRWY LYGAID Y CAMERA

Ym mro'r Eco mae llawer rwy'n siwr yn teimlo fod uchafbwynt y tymor chwaraeon wedi cyrraedd. Nid y bêl-droed, rygbi na chriced. Ond pencampwriaeth snwcer y byd draw yn theatr y Crochan yn Sheffield. Dim ond un Cymro sy'n cystadlu elenni sef y pencampwr presennol Mark Williams. Siom yw hyn o gofio cyfraniad sawl Cymro yn y gorffenol. O flaen y bocs fydd hi felly. Gêm o onglau a gosod safle yw snwcer ac i gyfleu hynny I'r gwyliwr rhaid rhyfeddu at ddawn arbennig y rhai sy'n anelu'r camerau teledu. Bydd dau â chysylltiad â Bethel yn cyfrannu yn y ddawn honno. Mae Mari Wyn ag Ifor o deulu Bet a Seiriol yn uchel eu parch yn y swydd arbennig yma. Dros y blynyddoedd diwethaf mae Mari fel gwraig camera llawrydd wedi gweithio ar rai o brif gampau gan gynnwys yr Olympics. Wedi'r Crochan bydd Mari ac Ifor yn gweithio ar gyfres o gemau rygbi yn ardal Llundain, ac yna bydd y ddau yn pacio'r bagiau i weithio ar Gwpan Rygbi y Byd yn Japan, mis Medi nesaf.

## O STINIOG I LANBER

Dioch i Heddwyn Jones, Ffordd Capel Coch am ei ymateb parod i fy ymholiad ynglyn â Dafydd Thomas o 'Stiniog â chwaraeodd i'r Darans yn y 1950 au. Roedd tad Heddwyn, Wil Jones, Shop yn hannu o 'Stiniog. Lawer gwaith meddai Heddwyn cofiai ei dad a Michael Lloyd Williams ( tad Jiws) yn trafod ffwtbol. Roedd y storiau am gyfnod yr 'hogia o 'Stiniog fyddai'n dod i chwarae dros Lanber mewn tacsi' yn fyw yn ei gof. Roedd tri ohonynt, ond tybed os oedd gan Lanberis ar y pryd 'agent' â chysylltiad ag ardal 'Stiniog sef y seren Emlyn Davies. Emlyn yn gyn chwaraewr ar Gae Clyd, Manod wrth gwrs. Y tri a lenwai'r tacsi oedd Ronnie Jones, Gwyn Morgans (Mox) a Dafydd Thomas. Fel y gwelwch o'r llun roedd Ronnie yn hogyn cyhyrog iawn a tipyn o daclwr os gwir yr atgof. Roedd Ronnie yn ddipyn o ffefryn gan Iwan Jiws chwedl Heddwyn. Yn 19 oed Gwyn Morgans oedd yr ieuengaf yn y garfan. Yn amlwg roedd gan Gwyn ddipyn o ddawn gan iddo arwyddo yn broffesiynol i Wrecsam dros dymhorau 1956 – 58. Yn ei gyfnod ar y Cae Râs sgoriodd ddwy gôl. Yn nhymor 1958-59 cafodd ei drosglwyddo i dîm Southport. Y cawr wrth gwrs oedd Dafydd Thomas, capten ysbrydoledig y Darans. Fel Dei Dŵ fe'i adnabyddir yn 'Stiniog. Chwaraewr di-gyfaddawd , cadarn a chwaraeodd yn ei dro i dimau 'Stiniog, Port a Chaernarfon. Hynny, mewn cyfnod pan gydnabyddwyd y Welsh League ( North) fel un o'r prif gynghreiriau Cymreig, a phob tim wedi ei fritho gan chwaraewyr a chryn brofiad yng Nghyngrair Lloegr. Dyma gyfnod y torfeydd mawr, a dros 1 000 yn tyrru i Ffordd Farrar i weld yr ail dîm yn chwarae yng nghyngrair y gogledd. Fel y gwelir yn y llun o'r sgrifen ar y bêl, roedd y Darans yn bencampwyr yn nhymor 51 -52. Roedd Dafydd Thomas yn ewythr i'r cerddor cyfoes talentog Gai Toms o'r grwp Anweledig. Braf gweld llun Tommy Morrow, o Fangor yn y tîm. Roedd Tommy yn gricedwr dawnus ac yn aelod o ail dîm Bangor pan ddechreuais i chwarae i'r clwb yn y 60 au cynnar. Roedd Robert Edgar ( gwr Myfanwy, teulu garej) yn byw dau ddrws I ffwrdd oddiwrthyf pan oeddwn yn byw yng Nghlasinryn. Mab Robert Edgar oedd y diweddar Dafydd Jones a sgoriodd sawl gôl i'r Darans ac ambell i glwb arall yng Nghynghrair Caernarfon ddiwedd y 60au. Fy mhrif atgof am Dafydd –â chwaraeodd gyda mi yn nhîm y Cymric yng Nghaerdydd – oedd am fore Gwener mwll a phump ohonom yn chwarae shot am gôl ar gae pêl-droed bach Glasinfryn. Wedi galw yn y tŷ, daeth Dafydd yn ôl a dweud, ' mae mam yn deud fod y wireless yn son am rwbath wedi digwydd yn Sowth'. I ni bryd hynny, gwlad estron oedd Sowth heb son am 'rhywle yn Sowth'. Daethom i wybod digon buan, fel gweddill y byd. Aberfan.

Diolch i ti Heddwyn am gymwynas a agorodd ffenestri'r cof i lawer gobeithio. Oes gennych chi ddarllenwyr selog stori o fyd y campau i'w rannu?



Gwesty Dolbadarn
Llanberis
Ffôn-(01286)-870277

Noson o
"Gerddoriaeth
Dafydd Bullock"
EGLWYS SANT PADARN
LLANBERIS
Nos Wener- 29 Mai am 7o'r gloch
Gyda
Elen Roberts Soprano
Côr Meibion Dyffryn Peris
• Yna Caws a Gwin i ddilyn
Tocyn -£10. Ffoniwch Heather Jones
07867 982518

**Digwyddiadau mis Mai ym Mharc Padarn a Llyn Padarn**

- 10fed i'r 12fed: Ultra Trail Eryri ym maes parcio'r Gilfach Ddu a Dolbadarn. Trefnydd: Michael Jones
- 15ed ar 16eg : Digwyddiad Colegau Cymru yn cael ei drefnu gan 'Partneriaeth Awyr Agored' yn y Gilfach Ddu ac ar Lyn Padarn.
- 16eg: Triathlon Sbrint Llanc y Llechen ar Gae'r Ddol a Llyn Padarn. Trefnydd 'Always Aim High'.
- 19eg: Y Wledd Symudol yn y Gilfach Ddu.
- 19eg i'r 20fed: Triathlon Llawn Llanc y Llechen ar Gae'r Ddol a Llyn Padarn. Trefnydd: 'Always Aim High'.
- 24ain: Diwrnod Dathlu Dydd Cyfeiriannu Byd ar Gae'r Ddol a Chwrs Cyfeiriannu Parc Padarn. Trefnydd: Cymdeithas Gyfeiriannu Eryri.
- 27ain: Regatta Prifysgol Bangor yn Y Glyn ac ar Lyn Padarn. Trefnydd: Tim Rhwyfo Prifysgol Bangor.

# Lawnsio Hwb Môr Ladron

Bydd cyfle i ferched y dalgylch fwynhau gweithgaredd corfforol mewn awyrgylch saff, llawn hwyl yng Nghlwb Rygbi Caernarfon ar nos Iau, 16eg o fis Mai rhwng hanner awr wedi pedwar a hanner awr wedi pump o'r gloch. Mae croeso i unrhyw ferch rhwng 6 a 16 oed o bob gallu i ddatblygu sgiliau newydd, gwneud ffrindiau newydd a mwynhau rhoi cynnig ar rygbi. Does dim angen profiad blaenorol o rygbi. Ac mae'r cwbl AM DDIM. Trefnir y gweithgareddau gan Hannah M. Hughes, Swyddog Ymgysylltu Rygbi. Ymunwch gyda'r Môr Ladron!




# Celts Caernarfon

Y mis diwethaf roedd y clwb yn cael eu llongyfarch ar ennill tri cwpan mewn oedrannau gwahanol yng nghystadleuaethau Gogledd Cymru. Â'r tymor bellach wedi dirwyn i ben, rhaid llongyfarch dau o'r timau ar ennill eu cynghreiriau hefyd.

Yng ngêm olaf y tymor roedd dau dîm yn cystadlu am y gynghrair dan 18 oed – a'r ddau yn chwarae yn erbyn ei gilydd yn y gêm olaf. Dyna i chi ddiwedd tymor go iawn! Yr Wyddgrug neu Gaernarfon fyddai'n hawlio'r gynghrair, pa un bynnag o'r ddau fyddai'n ennill, a'r Celts aeth a hi o ddau bwynt yn unig.

Roedd y tîm dan 16 oed eisoes wedi ennill y gynghrair cyn eu gêm olaf, ond roedd angen curo Caergybi i sicrhau tymor cyfan heb golli yr un gêm, a dyna a wnaethpwyd.

Braf cael llongyfarch y clwb ar eu llwyddiant, a hynny'n enwedig o gofio fod nifer o fechgyn y fro yn aelodau blaenllaw o'r ddau dîm.

# RHEDEG MYNYDD

Rasys Nos Fawrth

Gyda bron i hanner y gyfres wedi ei chwblhau, y mae'r ceffylau blaen yn y gwahanol adrannau eisoes wedi dangos eu bwriad o ennill.

Bydd dau begwn daearyddol y rasys yn cael eu cyrchu yn ystod mis Mai, gan gychwyn ar nos Fawrth 7fed ym Moel y Gest, y pegwn mwyaf deheuol. Mynydd Mawr fydd ras y 14eg, cyn anelu am y pegwn mwyaf gogleddol wythnos yn ddiweddarach ar yr 21ain i'r Gogarth yn Llandudno. Y Garn, Rhyd-ddu fydd ras olaf y mis ar yr 28ain. Bydd cystadlu caled i'w ddisgwyl yn ystod y mis hwn, oherwydd dim ond tair ras fydd yn weddill wedyn ym Mehefin.



Llongyfarchiadau i Arwel Lewis, Bethel yn ennill yr adran dros 60 oed yng Nghyngrair Rhedeg Ffordd y Gororau (Borders League). Mae tim Rhedwyr Eryri wedi bod yn cystadlu yn y gynghrair hon ers 20 mlynedd, ac Arwel wedi rhedeg mewn 133 o'r 142 o rasys a gynhaliwyd dros y blynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwn mae wedi dod yn ail neu drydydd yng nghategoriau oedran dros 40, dros 45, dros 50 a thros 55. Bellach, mae'n bencampwr dros 60 oed.



# Chwaraeon

## Merched ifanc yn serennu ar y cae hoci





Dros y mis diwethaf mae dau dîm o ieuenctid Clwb Hoci Merched Caernarfon wedi perfformio yn nhwrnameintiau Gogledd Cymru, a'r ddau dîm yn cyrraedd y ffeinal!

Cafodd y tîm dan 13 oed lwyddiant ysgubol ym Mae Colwyn ar 30ain o Fawrth gan ennill 3 gem yn erbyn Llaneurgain, Rhuthun ac Eirias a dod yn gyfartal yn erbyn Bangor a Dysynni. Er i genod dre guro Eirias yn y ffeinal, dod yn 2il gyda gwahaniaeth pwyntiau wnaeth ein tîm lleol - ond camp arbennig.

Roedd hwyl dda ar y merched dan 11 oed gan guro Rhuthun a cholli yn erbyn Llanfair Caereinion ym Mae Colwyn ar y 6ed o Ebrill, gan chwarae ar safle hanner cae am y tro cyntaf - her enfawr i 7 chwaraewr! Da iawn chi genod!

Erbyn i'r Eco fynd i brint bydd y ddau dîm ieuenctid wedi cymryd rhan yn rownd derfynol genedlaethol Cymru ar Ebrill 28ain. Ewch i'n tudalen Facebook i gael yr hanes.

## Dartiau dros Gymru



Llongyfarchiadau i Darren Bingham, Tafarn y Wellington, Deiniolen, ar ei lwyddiant diweddar wedi iddo gael ei ddewis i chwarae dartiau dros Gymru. Chwaraeodd ei gemau cyntaf ym Merthyr Tudful yng ngystadleuaeth y Celtic Challenge. Nid yn unig iddo guro ei ddwy gém ond y fo hefyd gafodd sgoriau gorau'r diwrnod gan blesio'r dorf gan gynnwys criw mawr o Ddeiniolen. O ganlyniad chwaraeodd eto dros ei wlad yng nghystadleuaeth y gwledydd cartref yn yr Alban. Unwaith eto, curodd ei gemau i gyd sydd yn golygu y bydd yn cynrychioli Cymru unwaith eto ond y tro yma mewn cystadleuaeth ryngwladol yn ystod yr haf. Ceir mwy o fanylion yn nes at yr amser. Da iawn Darren, mae'r holl flynyddoedd o ymarfer yn talu ei ffordd o'r diwedd.